

---

Teitl y cyfarfod: **Cyfarfod Bwrdd CNC - Sesiwn Gyhoeddus**

---

Dyddiad y Cyfarfod: 27 Ionawr 2023

Amser y cyfarfod: 9.00-11.30

---

Lleoliad: **Cyfarfod drwy Microsoft Teams**

Ymunwch ar eich cyfrifiadur, ap symudol neu ddyfais ystafell

[Cliciwch yma i ymuno â'r cyfarfod](#)

[Lawrlwytho Teams](#) | [Ymuno ar y we](#)

Neu ffoniwch (sain yn unig)

[+44 29 2105 5545,,9310975#](#) Y Deyrnas Unedig, Caerdydd

Rhif Adnabod Cynhadledd Ffôn: 931 097 5#

[Chwilio am rif lleol](#) | [Ailosod PIN](#)

---

Amser

Eitem

---

9.00  
(5 munud)

### 1. Agor y Cyfarfod

- Croeso
- Datgan buddiannau
- Egluro'r dull o gynnal y cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

**Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiant.**

---

9.05  
(5 munud)

### 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Cofnod Gweithredu

**2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 16 Tachwedd**

**2B. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 17 Tachwedd**

**2C. Adolygu'r Cofnod Gweithredu Cyhoeddus**

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)

**CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r cofnod gweithredu.**

---

9.10  
(5 munud)

### 3. Diweddariad gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw

**Crynodeb: NODI diweddariad y Cadeirydd i'r Bwrdd.**

---

9.15  
(10 munud)

### 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

**Crynodeb: NODI'r sefyllfa gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgareddau allweddol.**

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B07**

---

---

**9.25**  
**(15 munud)**

**5. Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau a'r Fforymau**

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y Pwyllgorau

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg – 15 Rhagfyr ac 13 Ionawr

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B08**

Y Pwyllgor Cyngori ar Dystiolaeth – dim cyfarfod

Y Pwyllgor Cyllid – 10 Ionawr

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B09**

Y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd – 24 Ionawr

Pwyllgor Stad Tir CNC – 19 Ionawr

Y Pwyllgor Pobl a Chyflogau – 13 Ionawr

Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig – dim cyfarfod

Diweddariadau Fforymau

Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B10**

Fforwm Pysgodfeydd Cymru

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B11**

Fforwm Rheoli Dŵr Cymru

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B12**

Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B13**

**Crynodeb: NODI'R diweddariadau gan bwyllgorau'r Bwrdd, y tu mewn a'r tu allan i unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd.**

---

**9.40**  
**(15 munud)**

**6. Adroddiad Perfformiad Ariannol**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol

Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: NODI'R sefyllfa ariannol ddiweddaraf**

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B14**

---

**9.55**  
**(10 munud)**

**7. Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol**

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol

Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: CYMERADWYO Cyllideb Ardaloedd Draenio Mewnol**

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B15**

---

**10.05**  
**(20 munud)**

**Egwyl**

---

---

**10.25  
(15 munud)**

**8. Natur a Ni**

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol  
Cyflwynydd: Russell De'Ath, Uwch-gynghorydd Arbenigol, Vision 2050

**Crynodeb: TRAFOD y diweddariad ar Natur a Ni**

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B16**

---

**10.40  
(10 munud)**

**9. Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Thryloywder mewn Cyfarfodydd Bwrdd**

Noddwr: Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol  
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

**Crynodeb: CYMERADWYO'R cynigion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a thryloywder yng nghyfarfodydd y Bwrdd**

**Cyflwyniad**

---

**10.50  
(5 munud)**

**10. Newidiadau Arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol (SaLS)**

Noddwr: Clare Pillman, Prif Weithredwr  
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

**Crynodeb: CYMERADWYO newidiadau i'r SaLS ar gyfer y Byrddau Busnes**

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B19**

---

**10.55  
(5 munud)**

**11. Rhagolwg y Bwrdd**

Noddwr: Syr David Henshaw  
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

**Cyfeirnod y papur: 23-01-B20**

---

**11.00  
(5 munud)**

**12. Unrhyw fater arall**

a) **Cadeirydd y Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid (PCSC)**

Noddwr: Syr David Henshaw  
Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

---

**Crynodeb: CYMERADWYO penodiad Mark McKenna  
yn Gadeirydd y Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a  
Rhanddeiliaid (PCSC)**

Cymeradwyaeth drwy ohebiaeth

b) Aelodaeth dros dro o Bwyllgor Ystad Tir CNC

---

**Diwedd cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd**

---

**11.05**      **Sesiwn holi ac ateb cyhoeddus**  
**(25 munud)**

---

**11.30**      **Diwedd y cyfarfod**

---

## Cofnodion Heb eu Cadarnhau

<b>Teitl y Cyfarfod:</b>	<b>Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus</b> <b>Microsoft Teams</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	16 Tachwedd 2022
<b>Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:</b>	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Karen Balmer Julia Cherrett Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
<b>Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:</b>	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
<b>Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:</b>	Rob Bell, Pennaeth Cyllid, Eitem 6 Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Eitem 7 Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, Eitem 7 Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch, Eitem 8
<b>Arsylwyr CNC:</b>	Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni
<b>Arsylwyr Cyhoeddus:</b>	Neb
<b>Datganiadau:</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dr Rosie Plummer – Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – rhyngweithiadau eang iawn yn cynnwys: cylch gwaith cynllunio – goblygiadau ardaloedd daearol a morol ac ACA a pharthau llifogydd; safleoedd gwarchoddedig – tir a môr – o fewn dynodiad tirwedd cyffredinol; derbyn grantiau CNC. Ymddiriedolwr Plantlife – mae Plantlife yn gydweithredwr ar brosiect Natur am Byth, ac yn derbyn grant.</li><li>• Yr Athro Steve Ormerod – Aelod o'r Ymddirdiedolaeth Genedlaethol; mae ei wraig yn aelod o Banel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr</li></ul>

---

Cymru; mae ei wraig yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd sy'n rheoli partneriaeth strategol gyda Dŵr Cymru.

- Yr Athro Calvin Jones – Aelod o Bwyllgor Llywio Skyline
  - Karen Balmer – Prif Swyddog Gweithredol Groundwork y Gogledd – derbyn grant gan CNC; partner gyda dau arall sy'n derbyn grant
- 

**Ymddiheuriadau:** Mark McKenna  
Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

---

**Ysgrifenyddiaeth:** Jocelyn Benger  
Natalie Williams  
Sian Johnston

---

## Eitem 1: Cyfarfod Agored

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Cyflwynwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel y nodir uchod.

## Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

### 2A. Adolygu Cofnodion y Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 22 Medi

2. Adolygwyd y cofnodion o gyfarfod cyhoeddus 22 Medi a chytunwyd arnynt.
3. Croesawodd Zoe Henderson gyhoeddi cofnodion y cyfarfod blaenorol ond tynnodd sylw at y ffaith nad oedd diwygiad wedi'i weithredu a bod angen cywiro hyn.

**GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r cofnodion ar gyfer y diwygiad a awgrymwyd gan Zoe Henderson.**

### 2B. Adolygu'r Log Gweithredu Cyhoeddus

4. Adolygwyd a nodwyd y log gweithredu.

## Eitem 3: Diweddariad gan y Cadeirydd

5. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal am amryw o faterion.

## Eitem 4: Adroddiad gan y Prif Weithredwr

6. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar yr adroddiad ysgrifenedig.
7. Roedd Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig 27 (COP27) yn cael ei chynnal yn yr Aiff. Byddai COP15 yn cael ei chynnal ym Montreal ddechrau mis Rhagfyr gyda'r Gweinidog, Julie James, yn mynychu. Bydd pawb yn edrych am ymrwymïadau i wella bioamrywiaeth tebyg i'r hyn a gafwyd i fyd natur gan gytundeb Paris. Roedd CNC wedi bod yn gweithio gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a chyrrff cadwraeth natur eraill ar gynhyrchu datganiad ar y cyd i'w gyhoeddi mewn digwyddiad yn y Gymdeithas Frenhinol yr wythnos nesaf. Yng Nghymru, roedd y cyfle o'r diddordeb yn y COPs yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod pobl yn cymryd sylw o'r negeseuon. Byddai CNC yn weithredol ac yn brysur ar draws amrywiaeth o feysydd yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru yr wythnos nesaf.

8. Byddai'r Canghellor yn gwneud ei ddatganiad hydref yfory ac roedd disgwyl iddo godi trethi a thorri ar wariant cyhoeddus. Roedd CNC yn cadw mewn cysylltiad agos â Llywodraeth Cymru.
9. Nodwyd yr argyfwng costau byw parhaus a'r dystiolaeth o'i effaith ar staff. Byddai CNC yn parhau i edrych ar y ffordd orau o gefnogi staff wrth symud ymlaen.
10. Ysgrifennwyd at ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus Grant Cymunedau Cryf CNC ar ddechrau mis Tachwedd. Grant o £2 miliwn oedd hwn i'w wario eleni a'r flwyddyn nesaf. Caeodd y ceisiadau ar 19 Medi a derbyniwyd dros 200 o geisiadau, a oedd yn werth £20 miliwn, gyda 21 ohonynt yn llwyddiannus. Dyma'r cynllun grant cystadleuol mawr cyntaf ers cryn amser i CNC ac roedd ansawdd y ceisiadau'n uchel iawn. Byddai trafodaethau'n cael eu cynnal â Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun trafodaethau cyllideb ehangach ar yr awydd i wneud mwy yn y maes hwn.
11. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ddiweddariad ar yr Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth. Roedd y tîm yn CNC yn gweithio'n galed i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu a oedd yn bodoli o dan argymhellion yr Archwiliad Dwfn. Roedd y Gweinidog i fod i wneud datganiad yn y Flwyddyn Newydd a'r gobaith yw y byddai'r Cynllun Gweithredu manwl yn cael ei gyhoeddi bryd hynny. Byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu a'r Athro Steve Ormerod (yn cynrychioli Prifysgol Caerdydd) yn mynd i'r afael â rhai o'r camau gweithredu fel rhan o'r Gweithgorau. Byddai aelodaeth y grwpiau'n cael ei adolygu cyn y Cam Gweithredu. Gwelwyd cynnydd eisoes gyda'r gwaith Mawndiroedd, y rhaglen weithredu, cyllid ychwanegol, cyllid Rhwydweithiau Natur a chyllid grant. Roedd CNC yn gweithio ar y cysyniad o fapio Rhwydweithiau Natur ac yn gweithio ar ddarn posibl o waith ar gyfer Llywodraeth Cymru ar wneud hyn ar raddfa ofodol. Roedd CNC yn gyrru gwaith ymlaen a byddai ymrwymadau'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd. Roedd gweithdy wyneb yn wyneb wedi'i drefnu gyda Llywodraeth Cymru yr wythnos nesaf i fwrw ymlaen ar y Cynllunio Gweithredu manwl.
12. Nododd aelodau'r Bwrdd gynnwys y diweddariad a thynnu sylw at y pwysigrwydd o barhau'n ymwybodol o'r gymhareb ymdrech i'r rhai nad oedd wedi llwyddo gyda'u Ceisiadau am Grant Cymunedau Cryf. Cydnabuwyd y gwaith a wnaed gan lawer iawn o bobl a byddai'n bwysig cydbwysu hyn.

### **Eitem 5: Adroddiadau Diweddarau'r Pwyllgorau**

13. Fel Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, diweddarodd Karen Balmer y Bwrdd ar waith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 8 Medi. Roedd cyfarfod trosglwyddo wedi'i gynnal gyda Chadeirydd blaenorol y Pwyllgor, Catherine Brown, a sesiynau dal i fyny wedi'u cynnal gydag aelodau eraill y Pwyllgor. Roedd cyfarfodydd yn y calendr gyda'r tîm.
14. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth, diweddarodd Peter Rigby y Bwrdd ar drafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Hydref. Ailedrychwyd ar y Rhaglen Mawndiroedd i weld sut roedd wedi'i chostio. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y mater hwn a byddai'n dychwelyd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod arall. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y dynodiad parc cenedlaethol newydd posibl. Rhoddwyd cyflwyniad ar ddadansoddeg data, a arweiniodd at drafodaeth ddiddorol ac roedd gwaith yn symud ymlaen yn y maes hwn. Darparwyd cyflwyniad manwl iawn ar y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
15. Dywedodd yr Athro Steve Ormerod fod y Gynhadledd Dystiolaeth ddiweddar wedi bod yn dda iawn gyda chyflwyniadau cydweithredol da a gofynnodd am roi adborth ar hyn i'r tîm.



Roedd mwy o gyfarfodydd partneriaeth cydweithio wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## **GWEITHREDU: Adborth cadarnhaol gan y Bwrdd ar y Gynhadledd Dystiolaeth i'w drosglwyddo i'r tîm.**

16. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, diweddarodd Syr David Henshaw y Bwrdd ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 15 Medi. Bu'n rhaid aildrefnu cyfarfod mis Rhagfyr ac roedd dyddiad newydd wedi'i drefnu ar gyfer 10 Ionawr.
17. Fel Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Perygl o Lifogydd, diweddarodd Julia Cherrett y Bwrdd ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref. Roedd y Pwyllgor wedi cyfarfod wyneb yn wyneb ac wedi bod ar ymweliad safle yn y Bont-faen. Cafwyd cymysgedd dda o eitemau ymarferol, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y Prosiect Adolygu Llifogydd a'r Rhaglen Gyfalaf. Byddai gweithdy archwiliad dwfn yn cael ei drefnu ar flaenoriaethu prosiectau. Cafwyd trafodaeth dda am Risg Strategol 02. Gofynnwyd am fwy o fanylion am yr ychydig o asedau a oedd yn is na'r cyflwr targed. Cafwyd ymweliad safle defnyddiol â chynllun Cronfa Ddŵr y Bont-faen i edrych ar y mesurau er budd diogelwch.
18. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau, diweddarodd Julia Cherrett y Bwrdd ar y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 13 Medi.
19. Fel Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig, rhoddodd Dr Rosie wybodaeth i'r Bwrdd am y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref. Roedd rhan fawr o'r agenda'n ymwneud â'r dynodiad parc cenedlaethol newydd posibl ac roedd y tîm rheoli rhaglen wedi'i sefydlu erbyn hyn. Cafwyd trafodaeth ddiddorol am yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a goblygiadau ffosffad. Cynhaliwyd archwiliad dwfn ar Risg Strategol 05. Hysbyswyd y Pwyllgor am lythyrau rhybudd am dorri rheolau a oedd wedi'u rhoi'n fewnol yn ymwneud â safleoedd gwarchoddedig. Roedd cyfarfodydd hysbysiadau safleoedd gwarchoddedig yn y calendr pe bai angen ar gyfer y flwyddyn nesaf. Roedd yr hyfforddiant cyfreithiol ar hyn wedi'i oedi i gynnwys aelodau newydd o'r Bwrdd ac i sicrhau ei fod yn amserol i ddynodiadau safle.
20. Trafododd yr aelodau y llythyrau rhybudd a roddwyd yn fewnol ac a oedd hyn yn cynyddu seilos. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau fod gwaith wedi'i integreiddio'n lleol ond bod angen cadw waliau clir rhwng ardaloedd, fel y gall ardal ddaearyddol wahanol ymchwilio i achos o dorri rheolau. Roedd ARAC wedi argymhell rhannu gwybodaeth am dorri rheolau â Phwyllgor perthnasol y Bwrdd.
21. Fel Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, rhoddodd Zoe Henderson wybodaeth am y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 5 Medi a 17 Hydref. Dywedwyd bod llunio Adroddiad Mesurau Amgen cadarn yn gyflawniad mawr gan y grŵp a bod yna gefnogaeth eang ar gyfer llawer o'r gwelliannau posibl i'r rheoliadau dŵr.
22. Argymhellodd aelodau'r Bwrdd y byddai'n ddefnyddiol gweld diweddariadau gan fforymau eraill yn CNC, fel Pysgodfeydd, Dŵr a Hamdden, i gydgyssylltu'n ehangach ar draws y sefydliad.

## **GWEITHREDU: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys diweddariadau gan fforymau eraill yn eitem agenda Adroddiadau Diweddarau Pwyllgorau'r Bwrdd.**

### **Eitem 6: Adroddiad Cyllid**

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

23. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Roedd yr incwm ar y trywydd iawn ond gostyngodd yr incwm coed yn yr haf o £40 i £36 miliwn. Roedd y



gwariant ar y trywydd iawn ond yn £10 miliwn ymhellach ymlaen ar y cam hwn o gymharu â'r llynedd; 40% o gymharu â 37% y llynedd. Roedd yna bosibilrwydd y byddai yna ychydig o orwariant pe bai camau gweithredu ddim yn cael eu cymryd. Darparwyd diweddariad ar y sefyllfa ar gyfer diwedd y flwyddyn. Roedd disgwyl gostyngiad o £4 miliwn yn yr incwm coed, gyda'r rhagolwg diweddaraf yn £35-£37 miliwn, a byddai angen rheoli hyn. Cafwyd ychydig o gynnydd mewn incwm ynni. Rhoddwyd diweddariad ar y cyflwyniad i Lywodraeth Cymru i gadw'r swm o werthu Forest Holidays. Esboniwyd bod Llywodraeth Cymru'n edrych i ddal y swm o'r £7 miliwn oedd wedi'i gynnwys yn y llythyr cysur yn sgil pwysau cyllidebol. Roedd y gyllideb yn ei lle ar gyfer y dyfarniad cyflog. Roedd gor-raglennu wedi'i bennu ar £4 miliwn, a fyddai'n ddigon mewn blwyddyn arferol ond yn sgil y cyfuniad o bwysau, roedd y Tîm Gweithredol wedi penderfynu peidio â chaniatáu unrhyw ail-flaenoriaethu pellach.

24. Bu aelodau'r Bwrdd yn trafod y diweddariad. Gofynnwyd beth oedd canlyniadau mynd dros y gyllideb. Ac eithrio problemau cyfrifyddu a gadael y Swyddog Cyfrifyddu'n agored i feirniadaeth hallt, esboniwyd, ar lefel ymarferol y byddai swm y gorwariant yn cael ei leihau o gyllideb y flwyddyn nesaf. Trafodwyd y problemau ynghylch ariannu seilos, a oedd yn golygu nad oedd hi'n bosibl symud cyllid o un maes i'r llall. Gofynnwyd am y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda'r gostyngiad parhaus posibl mewn incwm coed. Esboniwyd bod yr holl dimau Stiwardiaeth Tir yn gweithio ar y rhagolwg diwygiedig, a fyddai'n llywio gofynion y flwyddyn nesaf.
25. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid drosolwg o'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y ddwy ffrwd ariannu o dan y pwysau mwyaf oedd incwm coed a Grant Cymorth nad yw'n ymwneud â Llifogydd. Esboniwyd bod cais wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am £17 miliwn i'w ychwanegu at y llinell sylfaen, a oedd wedi'i gynnwys fel cyllid dros dro yn flaenorol. Nodwyd mai dim ond Cytundebau Lefel Gwasanaeth oedd yn debygol o gael eu derbyn ar Reoliadau Amaethyddol a Morol. Rhoddwyd diweddariad ar feysydd eraill hefyd. Gofynnwyd i'r busnes am flaenoriaethau a syniadau rhag ofn y byddai angen gwneud toriadau. Roedd disgwyl i Lywodraeth Cymru roi diweddariad ar y sefyllfa ariannu erbyn canol mis Rhagfyr.
26. Nododd aelodau'r Bwrdd y gwaith oedd yn cael ei wneud ar y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf gan gydnabod y bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd mae'n debyg. Nodwyd y byddai FC yn gwneud y gwaith mwyaf ar hyn ond argymhellodd y Cadeirydd y dylai'r Bwrdd gael gwybod am y problemau wrth symud ymlaen ac y dylid ystyried y mecanwaith ar gyfer hyn.

**GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid i ystyried y ffordd orau o hysbysu'r Bwrdd am benderfyniadau ariannol allweddol yn 2023-24.**

## **Eitem 7: Adroddiad Chwarter 2 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes**

Cyflwynydd: Clare Pillman, Prif Weithredwr

Yn bresennol: Caroline Hawkins, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad ac Asesu Strategol, Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni

27. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Adroddiad Chwarter 2 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes hyd at ddiwedd mis Mehefin. Yn Chwarter 1, roedd un mesur wedi'i nodi yn 'amherthnasol' gan ei fod yn ymwneud â chefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r Bil Amaethyddiaeth. Roedd y gwaith wedi dechrau erbyn hyn a'r statws Coch Ambr Gwyrdd wedi'i raddio'n Wyrdd.

28. Roedd yna ddau fesur Coch yn Ch2. Roedd un wedi bod yn Goch yn Ch1 ac roedd y mesur Coch ychwanegol yn ymwneud â chamau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer rhywogaethau sy'n dirywio ac ar fin diflannu. Roedd yna thema gref gydol yr Adroddiad am anawsterau recriwtio gweithwyr, a oedd yn cael ei brofi ar draws sefydliadau, yn enwedig mewn meysydd arbenigol. Roedd llawer iawn o waith yn cael ei wneud i wella hyn, fel mesurau i ddenu mwy o staff, hyfforddiant gan CNC, recriwtio ar gyfer potensial, prentisiaethau a chynlluniau hyfforddi. Cydnabuwyd ei bod hi'n debygol y byddai hyn yn her am beth amser.
29. Roedd trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru ar gyllid CLG yn ymwneud â'r argymhellion o'r Archwiliad Dwfn i Ynni Adnewyddadwy. Roeddem yn disgwyl am ddyddiad cyfarfod newydd gyda'r Prif Weinidog.
30. Rhoddwyd diweddariad ar waith Adfywio. Roedd negeseuon yn cael eu hanfon at staff am yr ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i swyddfeydd Caerdydd. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol drosolwg o'r cynigion a fyddai'n cynnwys cau'r swyddfeydd yn Nhŷ Cambria a Llaneirwg a symud i un safle a rennir yng Nghaerdydd.
31. Trafododd aelodau'r Bwrdd y cynigion ar gyfer swyddfa Caerdydd ac ystyried y goblygiadau i'r staff. Gofynnwyd am yr amserlen a dadansoddiad o gost a budd. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y manteision ariannol a charbon a'r manteision llesiant posibl. Byddai Achos Busnes y cynigion yn cael ei rannu â'r Bwrdd.

### **GWEITHREDU: Yr Achos Busnes ar gyfer swyddfa Caerdydd i'w ddsbarthu i'r Bwrdd.**

32. Trafod y problemau recriwtio ac ystyried profiad gweithwyr newydd. Dywedwyd ei bod hi'n bwysig sicrhau profiad cadarnhaol i weithwyr newydd ac y gellid gwneud gwaith i sicrhau hyn. Nodwyd bod yna broblemau o ran cadw gweithwyr yn ogystal â recriwtio.

### **CYMERADWYWYD: Adroddiad Chwarter 2 Dangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes**

#### **Eitem 8: Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch**

Cyflwynwyr: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

33. Cyflwynwyd yr eitem gan Gyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu. Roedd gwaith wedi'i wneud gyda staff yng nghyd-destun heriau ariannol ac adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn arno. Roedd gwaith yn cael ei wneud hefyd ar y dyfarniad cyflog gan y cydnabuwyd bod hon yn eitem allweddol i'r staff yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i PaRC am hyn.
34. Rhoddodd y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch drosolwg o Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch. Nid oedd unrhyw Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol yn cael eu cynnal. Nodwyd bod rhywfaint o'r wybodaeth am yr Adolygiadau hyn wedi'i diwygio i roi mwy o wybodaeth am ymweliadau safle ac arolygiadau a gynhaliwyd yn enwedig mewn digwyddiadau a oedd wedi arwain at farwolaeth ac a oedd yn cynnwys unrhyw waith adfer. Roedd yr Adolygiadau yn ôl ar y trywydd iawn i'w cwblhau. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y gwaith papur a'r gweithdrefnau Rheoli Dylunio Adeiladu i edrych ar draws y busnes. Roedd y gwaith papur ar brawf gyda'r staff, gyda'r lansiad wedi'i drefnu ar gyfer dechrau Ionawr. Roedd yna un Anaf Amser a Gollwyd a chynnydd mewn Achosion Fu Bron â Digwydd ac yr adroddwyd amdanynt.
35. Archebwyd y Safon Iechyd Corfforaethol ar gyfer 9 Rhagfyr am estyniad blwyddyn i'r dyfarniad Arian. Roedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi archwilio nifer o safleoedd gwerthu coed sy'n sefyll, ac roedd disgwyl adborth ffurfiol ddechrau mis

Rhagfyr, a fyddai'n cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol. Rhoddwyd diweddariad ar Ddysgu a Datblygu gan adrodd ar wybodaeth cyrsiau, yn cynnwys adrodd ar achosion o ganslo.

## **CYMERADWYWYD: Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Chwarter 2 Llesiant, Iechyd a Diogelwch.**

### **Eitem 9: Unrhyw Fater Arall**

36. Adroddodd Geraint Davies am bryderon a fynegwyd gan Gadeirydd Ardal Draenio Mewnol Dysynni ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud gan CNC. Awgrymwyd y byddai sgwrs agored yn ddefnyddiol a nodwyd bod y tîm lleol yn ymwybodol o'r problemau ac y byddent yn trefnu i gyfarfod â'r Cadeirydd.

## **GWEITHREDU: Trefnu cyfarfod rhwng y tîm lleol a Chadeirydd Ardal Draenio Mewnol Dysynni.**

37. Adroddodd Geraint Davies am wybodaeth a dderbyniodd am y defnydd diweddar o chwynladdwr yn swyddfa Dolgellau. Argymhellwyd y dylid ymchwilio i'r protocolau a ddefnyddir yn y swyddfa.

## **GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i adolygu'r protocolau ar gyfer defnyddio chwynladdwr yn swyddfa Dolgellau.**

38. Nododd Dr Rosie Plummer fod gwrthdaro rhwng dau ddigwyddiad ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023 sef cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r digwyddiad yn y Senedd.

**- Caewyd y cyfarfod –**

## Cofnodion heb eu Cadarnhau

<b>Teitl y Cyfarfod:</b>	<b>Cyfarfod Bwrdd CNC – Sesiwn Gyhoeddus</b> <b>Microsoft Teams</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	17 Tachwedd 2022
<b>Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol:</b>	Syr David Henshaw, Cadeirydd Clare Pillman, Prif Weithredwr Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd Karen Balmer (tan 12.10pm) Julia Cherrett Geraint Davies Zoë Henderson Yr Athro Calvin Jones Mark McKenna Dr Rosie Plummer Yr Athro Peter Rigby
<b>Aelodau o'r Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol:</b>	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol (ymddiheuriadau o 11.45am i 12.15pm) Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
<b>Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:</b>	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem) Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru (eitem 2) Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Dŵr Cymru (eitem 2) Eleri Rees, Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, Dŵr Cymru (eitem 2) James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hafren Dyfrdwy (eitem 2) Steph Pullan, Arweinydd Rheoliadau Amgylcheddol a Thrwyddedau, Hafren Dyfrdwy (eitem 2) Kristinn Mason, Prif Economegydd, Hafren Dyfrdwy (eitem 2) Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau, Gogledd-orllewin Cymru (eitem 2 a'r sesiwn Holi ac Ateb) Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Ddŵr (eitem 2) Natalie Hall, Rheolwr Sustainable Water (eitem 2) Gwenllian Roberts, Cyfarwyddwr Ofwat Cymru (eitem 2) Eifiona Williams, Pennaeth Cangen Ddŵr, Llywodraeth Cymru (eitem 2) Jeremy Parr, Pennaeth Perygl Llifogydd a Digwyddiadau (eitem 3) Nicholas Pritchard, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Strategol a Buddsoddi (eitem 3) Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Canol De Cymru (eitem 3)

---

Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru (eitem 3)  
Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth (eitem 4)  
Richard Cardwell, Rheolwr Tystiolaeth Integredig Dros Dro (eitem 4)

---

**Arsylwyr  
CNC:**

Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat  
Sarah Williams, Pennaeth y Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni  
Rebecca Taunton, Cynorthwydd i'r Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth  
Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (eitem 2)  
Meinir Wigley, Arweinydd Tîm Cyfathrebu Integredig (eitem 2)  
Joanne Westlake, Uwch Swyddog Cyfathrebu (eitem 2)

---

**Arsylwyr  
Cyhoeddus:**

Justin Davis, Câr-y-Môr  
Owen Haines, Câr-y-Môr  
Kim Waters, Undeb Afonydd Cymru  
Lloyd Evans  
Mark Barrow  
James Wallace, Prif Swyddog Gweithredol River Action  
Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd

---

**Datganiadau:**

- Dr Rosie Plummer - Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - rhyngweithiadau eang iawn yn cynnwys yn berthnasol i'r agenda hon: cylch gwaith cynllunio - goblygiadau ardaloedd daearol a morol ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a pharthau llifogydd; dynodiadau safle helaeth - yn cynnwys parth morol - o fewn dynodiad tirwedd cyffredinol; derbyn llawer o grantiau ac yn gydweithredwr. Ymddiriedolwr gydag Ymddiriedolaeth Plantlife - mae Plantlife yn gydweithredwr ar brosiect Natur am Byth, ac yn derbyn grant.
  - Yr Athro Steve Ormerod - Aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Aelod o ddwy Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghymru (dim dylanwad ar bolisi); Is-lywydd RSPB (dim dylanwad ar bolisi); Cymrawd o Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol (dim dylanwad ar bolisi); Diddordeb ymchwil wyddonol mewn ansawdd dŵr drwy Brifysgol Caerdydd; mae ei wraig yn aelod o Banel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol Dŵr Cymru; mae ei wraig yn Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Dŵr Prifysgol Caerdydd sy'n rheoli partneriaeth strategol gyda Dŵr Cymru.
  - Yr Athro Calvin Jones – Aelod o Bwyllgor Llywio Skyline; Aelod o Grŵp Ymchwil Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd sy'n cynnal asesiad effaith economaidd i Dŵr Cymru/Welsh Water
  - Geraint Davies – Aelod (dim dylanwad ar bolisi): RSPB Cymru; yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru; Undeb Amaethwyr Cymru; yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwyllt; Grŵp Cynghori Cymru ar Ffermio a Bywyd Gwyllt
  - Mark McKenna – cais cynllunio Down to Earth mewn ardal ACA sensitif o ran ffosffad
  - Karen Balmer – Derbyn grant gan CNC; cydweithio â CNC gyda phartneriaid eraill
- 

**Ymddiheuriadau:** Karen Balmer (o 12.10pm ymlaen)

---

**Ysgrifenyddiaeth:** Jocelyn Benger  
Natalie Williams  
Sian Johnston (bore)  
Rhiannon Spencer (pryhawn)

## Eitem 1: Cyfarfod Agored

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb. Cyflwynwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel y nodir uchod. Esboniodd y Cadeirydd drefn y cyfarfod.

## Eitem 2: Cynlluniau Busnes Cwmnïau Dŵr

Cyflwynwyr: Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol, Dŵr Cymru; Steve Wilson, Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Dŵr Cymru; Eleri Rees, Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, Dŵr Cymru; James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr, Hafren Dyfrdwy; Steph Pullan, Arweinydd Rheoliadau Amgylcheddol a Thrwyddedau, Hafren Dyfrdwy; Kristinn Mason, Prif Economegydd, Hafren Dyfrdwy

Yn bresennol: Sian Williams, Pennaeth Gweithrediadau, Gogledd-orllewin Cymru; Ruth Johnston, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Strategaeth Ddŵr; Natalie Hall, Rheolwr Sustainable Water; Gwenllian Roberts, Cyfarwyddwr Ofwat Cymru; Eifiona Williams, Pennaeth Cangen Dŵr Llywodraeth Cymru.

2. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a chroesawu'r siaradwyr allanol a'r arsylwyr, a diolch iddynt am eu presenoldeb.
3. Rhoddodd Peter Perry, Prif Swyddog Gweithredol Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW), gyflwyniad ar y trosolwg o Gynllun Buddsoddi Dŵr Cymru ar gyfer Adolygiad Prisiau 2024. Nod y Cynllun oedd sicrhau sgôr o bedair seren ar y raddfa Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, gan geisio gwella 500km o afonydd, lleihau llwytho maetholion, a gwneud cynnydd sylweddol tuag at leihau carbon erbyn 2023 a bod yn sero net erbyn 2024. Nodwyd rhaglenni buddsoddi DCWW ym meysydd dŵr yfed ac asedau. Esboniwyd y trosolwg o'r broses Adolygu Prisiau. Pwysleisiwyd bod sefydlogrwydd ariannol yn ffocws allweddol i DCWW. Byddai'n edrych i ail-fuddsoddi £2 biliwn cyn Adolygiad Prisiau 2024. Pwysleisiwyd bod gallu ariannol yn ffactor allweddol, gan gadw'r sgôr credyd, ac felly sicrhau biliau fforddiadwy i gwsmeriaid.
4. Cyflwynodd Steve Wilson, Rheolwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, nodau cyflawni Cynllun Rheoli Asedau 8 (AMP8) ac fe rannwyd y prif feysydd buddsoddi. Dywedwyd mai maes gollyngiadau fyddai'r maes buddsoddi mwyaf. Cafodd Rhaglen Amgylchedd Cenedlaethol Dŵr Gwastraff AMP8 a'r gwaith ar wella cyflwr afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig eu hamlinellu a'r cydweithio agos â'r Byrddau Rheoli Maethynnau a'r Awdurdodau Lleol. Esboniwyd pwysigrwydd Systemau Draenio Cynaliadwy i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.
5. Disgrifiwyd y darlun sy'n gwella ym maes bioamrywiaeth a byddai gwaith yn parhau ar dir sy'n eiddo i DCWW. Byddai angen cynnal y cydbwysedd rhwng gallu ariannol, fforddiadwyedd a gallu i gyflawni. Rhannwyd yr amserlen ar gyfer Adolygiad Prisiau 2024. Byddai yna sesiynau herio ddechrau 2023, yna cyflwyniad terfynol gan weithio tuag at benderfyniad terfynol ar gyfer 2024. Byddai yna gyfleoedd yng Nghymru i gyflawni ar leihau lefelau maetholion a rhoi cynnig ar dechnegau newydd drwy Atebion



Seiliedig ar Natur a gweithio mewn partneriaeth. Byddai'n bwysig parhau i weithio ar effaith asesu niwed o orlifau carthffosiaeth cyfunol i benderfynu ym mha drefn y dylid mynd i'r afael â nhw.

6. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb rhwng y Bwrdd a chynrychiolwyr DCWW.
7. Gofynnwyd i DCWW egluro'r diffyg o ran camau gweithredu angenrheidiol ar y Cynllun Rheoli Asedau nesaf a pha mor hir roedd hyn yn debygol o gymryd. Esboniwyd, yn achos gwella ansawdd dŵr afonydd, bod gwaith dosrannu ffynhonnell wedi'i wneud i weld o ble roedd y prif broblemau'n deillio. Roedd y prif waith triniaeth wedi'i nodi ac amcangyfrifwyd y byddai angen rhaglen o dri Chynllun Rheoli Asedau. Byddai angen rhaglen aml-gynllun o'r fath er mwyn mynd i'r afael â'r problemau gorlifau carthffosiaeth cyfunol gan fod yna amcangyfrif cost o £9-14 biliwn i'w ledaenu ar draws cwsmeriaid. Byddai dull wedi'i dargedu'n cael ei fabwysiadu i fynd i'r afael â'r gorlifau sy'n achosi'r difrod mwyaf yn gyntaf.
8. Roedd aelodau'r Bwrdd yn cydnabod rhwystredigaeth y cyhoedd ynghylch yr ystadegau gwael am berfformiad ac effaith amgylcheddol a nododd nod DCWW i wella 500km o hyd afonydd. Dywedwyd fod hyn gyfwerth i tua 2% yng Nghymru ond roedd 95 o gyrff dŵr yn methu o ran asedau DCWW. Gofynnodd y Bwrdd pryd fyddai DCWW yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth amgylcheddol. Esboniodd cynrychiolwyr DCWW fod y cwmni'n gweithio i wella a mabwysiadu dull CNC o gael ei arwain gan dystiolaeth. Byddai'r rhaglen PR24 yn cael ei thargedu fwy ond roedd yn rhaglen aml-gynllun rheoli asedau ac yn dasg heriol i sicrhau'r cydbwysedd rhwng gallu cyflawni a gwelliant amgylcheddol. Nodwyd y nifer o orlifau carthffosiaeth cyfunol heb drwyddedau ond roedd mesuriadau'n cael eu gwneud ar lefelau difrod.
9. Gofynnwyd cwestiynau am ymgysylltu â chwsmeriaid a sut y byddai DCWW yn ennyn cefnogaeth cwsmeriaid a chydweithio i gyflawni'r newid yr oedd pawb am ei weld. Esboniodd DCWW fod ymgysylltu â chwsmeriaid yn broses barhaus a bod yna broses ymgysylltu ffurfiol wedi'i chynnwys yng Nghynllun PR24. Roedd ymchwil cwsmeriaid eisoes wedi cychwyn a byddai Cam 2 yn edrych ar foddhad cwsmeriaid ynghylch uchelgeisiau hirdymor. Esboniwyd y sesiynau her agored. Byddai'r rhain yn cael eu cynnal ar y cyd ag Ofwat a'r canlyniadau'n cael eu safoni i alluogi cymhariaeth ar draws y cwmnïau dŵr. Darparwyd enghreifftiau o adborth cwsmeriaid, a oedd wedi dangos fawr o awydd i weld arian yn cael ei wario ym maes dŵr ffo arwyneb. Roedd y fforwm cwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun cytbwys.
10. Gofynnwyd i DCWW i esbonio sut y gallent ddangos eu bod yn mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Disgrifiwyd gwaith i sicrhau diogelwch argaeau a chynlluniau i ymdrin â cholli trydan a llifogydd. Esboniwyd y problemau gyda seilwaith dŵr gwastraff a'r angen i symud ymlaen gyda chynlluniau systemau draenio cynaliadwy. Byddai angen dal ati i weithio mewn partneriaeth ag eraill a chyflawni mwy ar y Rhaglen Dechrau Busnes Newydd. Byddai'r gwaith gydag awdurdodau lleol a'r awdurdodau priffyrdd yn allweddol i fynd i'r afael â phroblemau draenio dŵr ffo arwyneb.
11. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am fwy o wybodaeth am y dull a'r adnoddau'n ymwneud â phartneriaethau, yn enwedig gydag amaethyddiaeth. Cadarnhaodd Prif Swyddog Gweithredol DCWW fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gydag undebau'r ffermwyr ar lefel Prif Swyddogion Gweithredol ac roedd DCWW am weithio'n agos ag amaethyddiaeth. Roeddynt wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru eu bod am gydweithio ar lefelau ffosfforws a'u bod yn rhan o'r Byrddau Rheoli Maethynnau. Rhoddwyd enghreifftiau o brosiectau partneriaeth, fel Mega Ddalgyrch Bannau Brycheiniog, a gwlypdiroedd Swydd Henffordd fel ffordd o greu credydau maethynnau. Esboniwyd eu bod yn ffafrio dull sy'n fwy seiliedig ar ddalgyrch. Gofynnodd yr aelodau am y canlyniadau a'r gefnogaeth ar



gyfer Mega Ddalgyrch Bannau Brycheiniog. Esboniwyd mai dyma ddechrau proses gyflawni hirdymor ar ganlyniadau ond bod y seilwaith ar gyfer gweithio gyda phartneriaid yn ei le. Roedd hyn yn debygol o bontio dau gyfnod AMP cyn gweld y manteision i ddŵr ffo i gronfeydd dŵr. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am faint prosiectau posibl yn y dyfodol. Esboniwyd nad oedd prosiectau llai wedi bod mor effeithiol â rhai mawr a rhoddwyd disgrifiad o'r amrywiaeth o brosiectau a gynlluniwyd.

12. Gofynnwyd i DCWW pa fathau o raglenni effeithlonrwydd a oedd yn cael eu cyflwyno. Esboniwyd bod y rhain yn llifo drwy'r cyfnodau AMP ac y byddai unrhyw arbedion a sicrhwr yn cael eu hailfuddsoddi. Rhoddwyd disgrifiad o drosolwg o'r strwythur a chostau. Nodwyd y byddai Ofwat yn meincodi DCWW yn erbyn cwmnïau dŵr eraill.
13. Gofynnwyd am y dull o reoli'r galw am ddŵr. Esboniwyd bod yna raglen fawr ar fesuryddion wedi'i chynllunio ar gyfer PR24 a disgrifiwyd y cynllun Cartref, a oedd yn cynnwys trwsio gollyngiadau preifat a newid eitemau preifat aneffeithlon neu a oedd yn gollwng. Roedd gwaith yn cael ei wneud gyda phrifysgolion Cymru ar raglen ymddygiad ac roedd adborth o waharddiadau defnyddio dros dro'n cael ei adolygu i ddeall newid mewn ymddygiad.
14. Cafwyd trafodaeth ar yr elfen Dŵr Gwastraff a'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth cwsmeriaid am beth oedd yn mynd i mewn i'r system. Tynnodd cynrychiolwyr DCWW sylw at ymgyrch 'Stopio'r Bloc' ac ymgysylltu lleol pan oedd ffynhonnell blocio'n cael ei chanfod. Trafodwyd pwysigrwydd cymell dinasyddion i wneud eu rhan a rhannwyd enghreifftiau o hyn. Pwysleisiodd aelodau'r Bwrdd bwysigrwydd cydweithio i ddarparu negeseuon i gwsmeriaid fel galwad i weithredu gan ffynonellau dibynadwy. Soniwyd am y ffocws ar ffosffadau a dywedwyd bod angen datblygu dealltwriaeth ac addysg ar bresenoldeb ac effaith ffosffadau mewn cynhyrchion cartref. Byddai angen ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr ynghyd â newid mewn deddfwriaeth.
15. Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr DCWW a chroesawu'r cynrychiolwyr o Hafren Dyfrdwy.
16. Rhoddodd James Jesic, Rheolwr Gyfarwyddwr Hafren Dyfrdwy (HD), gyflwyniad ar Gynllun Buddsoddi HD ar gyfer Adolygiad Prisiau 2024 (PR24). Disgrifiwyd cefndir HD. Dywedwyd bod addysg yn ffocws allweddol a bod ganddynt raglen addysg cwsmeriaid eang ar y defnydd o ddŵr. Roedd stad Llyn Efyrynwy'n allweddol i gyflawni ar nodau bioamrywiaeth ac roedd yna raglen anferth ar liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Pennwyd targed uchelgeisiol o fod yn sero net erbyn 2030. Cydnabuwyd yr heriau ynghylch cael y biliau isaf yn y DU a byddai angen mynd i'r afael â hyn yn PR24. Esboniwyd y ffocws ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gwelliannau i fioamrywiaeth, ac ymrwymadau gorlifau carthffosiaeth cyfunol. Disgrifiwyd y llwybr ymlaen a Datganiad Cyfeiriad Strategol 2050 a Chynllun Rheoli Adnoddau Dŵr HD. Tynnwyd sylw at broblemau newid yn yr hinsawdd, ac ystyriwyd bod angen sicrhau cydnherthedd a digon o ddŵr yn y dyfodol, yn cynnwys y pwysigrwydd o fynd i'r afael â newid mewn ymddygiad a chyflawni gwerth gwirioneddol am ddŵr.
17. Disgrifiwyd y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod AMP cyfredol. Roedd HD wedi ymrwymo i wella ansawdd dŵr, cyflawni ar ganlyniadau i afonydd a mynd y tu hwnt i hynny, drwy leihau amllder gorlifo, gweithio gyda'r gymuned ffermio, a mabwysiadu dull rheoli dalgyrch. Byddai angen gweithio ar heriau trwyddedu rheoli dalgyrch. Roedd HD wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw ac roedd data'n cael ei rannu'n gyhoeddus. Roedd cynnal ansawdd dŵr yfed uchel a sbarduno cydymffurfiaeth ymlaen yn bellach yn ymrwymadau allweddol hefyd. Cydnabuwyd y baich mwy ar gwsmeriaid gyda chostau cynyddol a her fforddiadwyedd a disgrifiwyd y cymorth sydd ar gael i gwsmeriaid.

18. Cyflwynodd Kristinn Mason, Prif Economegydd HD, y cynlluniau buddsoddi dŵr ar gyfer PR24. Cafodd y prif feysydd eu rhannu ac roeddynt yn cynnwys: cydnerthedd Wrecsam; dyfnhau bioamrywiaeth; newid pibellau cyflenwi plwm; gofynion diogelwch argaeau a chronfeydd dŵr. Cyflwynodd Steph Pullan, Arweinydd Rheoliadau Amgylcheddol a Thrwyddedu yn HD, y cynlluniau buddsoddi dŵr gwastraff ar gyfer PR24, a oedd yn cynnwys: cydnerthedd rhag llifogydd, lleihau'r perygl o lifogydd a llygredd; dyfnhau bioamrywiaeth; NEP, gwarchod a gwella'r amgylchedd. Soniwyd am y cysylltiad rhwng y cynlluniau ym meysydd Dŵr a Dŵr Gwastraff a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a lens 2050.
19. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb rhwng y Bwrdd a chynrychiolwyr HD.
20. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y dyddiad pendant ar gyfer cyflawni statws ecolegol erbyn 2030. Gofynnwyd i HD rannu eu camau gweithredu ar orlifau carthffosiaeth cyfunol. Disgrifiodd HD sut roeddynt yn eu monitro mewn amser real, a oedd yn galluogi dealltwriaeth o'r problemau ac yna'n helpu i leihau gorlifau. Esboniwyd bod dulliau o gymryd dŵr allan o'r rhwydweithiau, fel defnyddio gwlyptiroedd, yn cael eu hystyried i'w treialu. Roedd y manylion wedi'u cynnwys yng Nghynllun PR24.
21. Roedd aelodau'r Bwrdd yn gwerthfawrogi'r ymdrechion i gefnogi cwsmeriaid a oedd mewn mwyaf o angen a gofynnwyd a oedd y cyfle'n cael ei ddefnyddio i addysgu cwsmeriaid ar faterion dŵr. Cadarnhaodd HD eu bod yn cymryd pob cyfle posibl i addysgu ar ymddygiad, yn cynnwys mewn ysgolion, gan eu bod yn gwmni lleol bach a oedd yn rhan o'r gymuned.
22. Nodwyd bod HD yn fach a gofynnwyd a oedd yn rhy fach i lwyddo yn y tymor hir. Esboniodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod Ofwat wedi adolygu ei sefydlogrwydd ariannol ac a'i fod yn hyderus ar gyfer y cyfnod AMP nesaf. Roeddynt wedi llwyddo i gyflawni. Disgrifiwyd y sefyllfa ariannol ac roedd yna agenda twf da yn edrych ar effeithlonrwydd a fforddiadwyedd. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am achosion o wrthbwysu carbon ac a allai'r rhain fod o ansawdd uchel. Disgrifiodd HD y mathau o wrthbwysu carbon, fel ynni dŵr ac adfer mawndiroedd. Hefyd, roedd achosion busnes yn cael eu hymchwilio ar gyfer cynhyrchu ynni.
23. Croesawodd yr aelodau'r gwaith ar ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned a chymorth iddynt a holwyd am y prif heriau o ran hyn. Cadarnhaodd HD fod y rhain yn ymwneud â datblygu dealltwriaeth am flaenoriaethau mewn symiau hylaw i'r cwsmer. Bu HD yn ymgysylltu â chwsmeriaid felly drwy'r broses ar flaenoriaethau, y Datganiad Cyfeiriad Strategol, a'r dewisiadau buddsoddi i feithrin dealltwriaeth cwsmeriaid a chael darlun cytbwys o dderbynioldeb. Roedd hyn yn dal i gael ei ddatblygu ond roedd thema fforddiadwyedd yn glir.
24. Gofynnwyd am gwmpas darpariaeth gyda phartneriaethau. Disgrifiodd HD y dull dalgylch, a fyddai'n ystyried effeithiau o'r dechrau i'r diwedd ac yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar gemegau ac ynni wrth drin dŵr. Cadarnhaodd HD fod gwaith wedi'i wneud ar dir a oedd yn eiddo i HD ond hefyd mewn partneriaeth â RSPB, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt a CNC. Bu ceidwaid afonydd HD yn ymgysylltu â chymunedau lleol a bu elusen HD yn gweithio ag elusennau lleol. Roedd yna gyfle i wneud mwy o waith partneriaeth, er enghraifft, gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, ac roedd HD yn croesawu unrhyw gymorth neu gyfleoedd yn y maes hwn.
25. Diolchodd y Cadeirydd i dîm HD am eu presenoldeb.

**Eitem 3: Diweddariad ar Raglen Adfer ac Adolygu Llifogydd a Bod yn Barod am y Gaeaf**  
Cyflwynydd: Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau

Yn bresennol: Nicholas Pritchard, Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynllunio a Buddsoddi Strategol; Michael Evans, Pennaeth Gweithrediadau, Canol De Cymru; Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru

26. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu yr eitem, a fyddai'n diweddarau'r Bwrdd ar y Rhaglen Weithredu Adfer ac Adolygu Llifogydd a Bod yn Barod am y Gaeaf yn dilyn craffu ar y materion hyn yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd. Bwriadwyd darparu diweddariad ar faterion bod yn barod am yr haf ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.
27. Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau gyflwyniad ar y Rhaglen Adfer ac Adolygu Llifogydd (FRRIP). Atgoffwyd am gefndir y Rhaglen, a sefydlwyd yn dilyn llifogydd 2020. Rhannwyd yr ystadegau ar lifogydd 2020 ac roedd dogfen crynodeb digwyddiad wedi'i chyhoeddi ar y wefan. Cafodd statws Coch Ambr Gwyrdd Cyflawni'r Rhaglen ei adrodd fel Ambr. Cwblhawyd 76 o'r 94 cam gweithredu. Rhannwyd trosolwg o'r camau gweithredu a gwblhawyd. Darparwyd diweddariad ar y cynnydd ar rotas a hyfforddiant i staff. Disgrifiwyd y canlyniadau hyd yn hyn. Esboniwyd y 18 cam gweithredu oedd yn weddill a'r llwybrau ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu a oedd yn hwyr. Roedd gweddill y camau gweithredu'n rhai tymor hir i'w cyflawni yn y dyfodol. Roedd yr amser cywir i gau'r rhaglen yn cael ei ystyried ond esboniwyd nad oedd cau'r rhaglen yn golygu cwblhau a bod goruchwyliaeth o'r camau gweithredu a oedd yn weddill a'r broses o gyflawni yn cael ei datblygu. Rhannwyd y Rhagolwg.
28. Fel Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, rhoddodd Julia Cherrett adroddiad ar drafodaethau'r Pwyllgor. Cydnabuwyd bod angen i lywodraethu fod yn gymesur. Roedd adroddiadau cau i fod i'w cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr a byddai'r Pwyllgor yn ystyried y broses ar gyfer goruchwyllo'r camau gweithredu a oedd yn weddill yn barhaus.
29. Nododd y Cadeirydd bryderon y Bwrdd am gau'r rhaglen a'r angen i ystyried y sicrwydd ynghylch hyn yn ofalus. Adroddodd Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd fod y Pwyllgor wedi rhannu'r pryder hwn ond ei fod wedi'i sicrhau gan y tîm bod yr archwiliad a chamau gweithredu'r Pwyllgor wedi'u hymgorffori ac y byddai gwiriadau ar barhau hyn yn cael eu hymgorffori yn Busnes Fel Arfer.
30. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod yr eitem hon wedi'i hystyried yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol ac y byddai angen sicrhau bod y Tîm yn parhau i weld y camau gweithredu a oedd yn weddill. Byddai diweddariad yn cael ei ddarparu i gyfarfod y Bwrdd yn y dyfodol i ddangos sut y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud ac yn dal i gael ei lywio a'i fonitro.
31. Fel Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen, soniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu am y newidiadau i'r dull rheoli perygl gan y Bwrdd Busnes a swyddogaeth y Cofrestrî Risg yn y broses oruchwyllo. Esboniodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau rôl y Tîm Gweithrediadau yn y Bwrdd FRRIP a sicrhau bod yr achos busnes yn cau. Esboniodd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau fod adroddiad gwireddu manteision yn cael ei ystyried ar ôl cau'r Rhaglen ac ar ôl i'r Manteision gael eu hymgorffori'n llawn.
32. Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau gyflwyniad ar Fod yn Barod am y Gaeaf. Disgrifiwyd y sefyllfa bresennol, yn enwedig o ran y canlyniadau o'r FRRIP. Cydnabuwyd bod y llwyth gwaith yn broblem i staff. Disgrifiwyd yr ymrwymiad a'r heriau, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd ac addasu a'r angen i drafod hyn. Nodwyd heriau o ran recriwtio. Rhannwyd y rhagolygon tri mis cyfredol ar gyfer tywydd y gaeaf. Disgrifiwyd y mesurau ar gyfer bod yn barod am y gaeaf ac roeddynt yn cynnwys:

gwaith rheoli asedau yn gysylltiedig ag amddiffynfeydd llifogydd; gorsafoedd monitro; cronfeydd dŵr; asedau digidol. Nodwyd asedau adnoddau dynol hefyd. Disgrifiwyd meysydd modelu, rhagolygon, darganfod a rhybuddio.

33. Dywedwyd bod hwn yn waith sydd angen ei wneud gydol y flwyddyn ac mewn partneriaeth â Fforymau Cydnerthedd Lleol. Disgrifiwyd gweithgareddau rheoli tir a'r effeithiau o'r Ystadau. Roedd angen ystyried iechyd a diogelwch canolfannau a safleoedd ymwelwyr CNC hefyd. Esboniwyd peryglon eraill nad oedd yn ymwneud â'r tywydd, a oedd yn cynnwys: prinder ynni; gweithredu diwydiannol; problemau Covid/iechyd; problemau iechyd anifeiliaid a phlanhigion; seiberymosodiadau; sychder; problemau gyda'r gadwyn gyflenwi fyd-eang. Disgrifiwyd y gwaith ar barhad busnes. Roedd y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau Strategol wedi'i roi o'r neilltu a chynlluniau wrth gefn yn cael eu paratoi. Roedd y prif negeseuon yn ymwneud â gwasanaethau allweddol, blaenoriaethu, gwelliannau, rheoli peryglon, a gwiriadau/archwiliadau. Nodwyd bod CNC mewn sefyllfa well ar gyfer y gaeaf hwn nag yn 2020 ond nad oeddent yn hunanfodlon. Cydnabuwyd y byddai'r tîm wedi'i ymestyn ac y byddai'r sefyllfa'n mynd yn fwy heriol gyda'r newid yn yr hinsawdd.
34. Ystyriodd aelodau'r Bwrdd y diweddariad. Nodwyd goblygiadau gaeaf sychach na'r arfer ar gyfer sychder y flwyddyn nesaf a dywedwyd bod angen cadw dŵr cymaint â phosibl.
35. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am y posibilrwydd ar gyfer blaenoriaethu a oedd modd rhoi'r gorau i rywbeth er mwyn canolbwyntio adnoddau. Disgrifiodd y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau pa wasanaethau oedd wedi'u lleihau eisoes, fel gweithgareddau ymgysylltu, er mwyn gallu canolbwyntio ar y rota a pharhad busnes. Cadarnhawyd bod y Gweinidog wedi derbyn y diweddariad ar fod yn barod am y gaeaf.
36. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith.

#### **Eitem 4: Trafodaeth Strategol ar Arloesedd**

Cyflwynwyr: Richard Cardwell, Rheolwr Tystiolaeth Integredig Dros Dro; Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth

37. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem a chyflwynodd y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth gwestiynau i'r Bwrdd eu hystyried.
38. Rhoddodd y Rheolwr Tystiolaeth Integredig Dros Dro gyflwyniad. Roedd gwaith wedi'i wneud gyda staff ar y rhwystrau mwyaf i arloesi yn eu barn nhw. Disgrifiwyd y prif faterion a nodwyd yn fewnol. Roedd y rhain yn cynnwys: amharodrwydd i gymryd risgiau tymor byr, cyflymder mynediad at lunwyr penderfyniadau, defnydd o iaith/jargon, gweithdrefniaeth, cydweithio ar draws meysydd busnes. Rhannwyd ac esboniwyd model Arsyllfa Arloesi'r Sector Cyhoeddus (OPSI) a'r canlyniadau i ddull arloesi CNC. Cytunodd y Tîm Gweithredol y dylid ymdrechu i arloesi mewn meysydd ffocws penodol yn hytrach na lledaenu ymdrechion yn rhy denau. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried cwestiynau am: barodrwydd y sefydliad i gymryd risg er mwyn arloesi; cydbwysu risgiau uniongyrchol, cost, a her; a ddylai arloesi fod yn ddiogel i fethu?
39. Croesawodd aelodau'r Bwrdd y drafodaeth ar arloesi. Cydnabuwyd nad oedd arloesi'n digwydd os oedd sefydliad yn rhy amharod i gymryd risg. Byddai angen ystyried y cymhellion i staff arloesi, a'r ffordd y gellid arloesi. Cynigiwyd bod dull skunkworks yn fodel llwyddiannus ar gyfer gweithio'n arloesol, er y cydnabuwyd nad oedd CNC yn barod o bosibl fel sefydliad ar gyfer y math hwn o ddull.
40. Byddai sganio'r gorwel yn bwysig, a gofynnwyd i ba raddau mae hyn wedi'i ymgorffori yn CNC. Roedd model OPSI wedi dangos bod hon yn adran wannach i CNC ac felly

pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid arloesol. Nodwyd bod CNC yn y lle gorau i weithio gyda phartneriaid arloesol, yn darparu arweiniad ar gynnyrch terfynol da ond nid yn datrys problemau lle mae angen arloesi'n fewnol. Awgrymwyd y dylid annog arloesedd ar bob lefel a graddfa ond yr allwedd i hyn oedd arweinyddiaeth a diwylliant yn y sefydliad. Byddai'n bwysig bod yn barod i dderbyn syniadau wrth ystyried a dysgu o arloesi yn y gorffennol.

41. Cydnabuwyd ei bod hi'n anodd cyrraedd y lle cywir ar arloesi ac y byddai angen ystyried y ffordd orau o baratoi staff i arloesi wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran darparu cyfleoedd i edrych ymlaen. Byddai angen diwylliant o alluogi arloesedd a newid yn y seicoleg ynghylch methiant. Rhoddwyd enghreifftiau o fod yn amharod i gymryd risg yn CNC. Nodwyd y diwylliant yn y sefydliad a phwysigrwydd llywodraethu a sicrwydd. Byddai angen meddwl am y cydbwysedd o fesurau rheoli a grymuso, y gellid ei gyflawni drwy greu lle diogel ar gyfer arloesi, megis labordai arloesi yn cynnwys eraill, er enghraifft, o brifysgolion a Sefydliadau Anllywodraethol. Awgrymwyd y dylid agor y sesiynau tystiolaeth fel cam cyntaf.
42. Cytunodd aelodau'r Bwrdd y byddai creu'r lle yn CNC ar gyfer arloesi yn bwysig. Dylid cynnwys dysgu a mewnbwn gan eraill a chael safbwyntiau gwahanol. Cytunwyd y gellid creu digwyddiad i ysgogi symudiad o fewn CNC a fyddai'n cynnwys arbenigedd a mewnbwn gan sefydliadau eraill a phrifysgolion. Cydnabuwyd bod heriau ar hinsawdd, natur a llygredd yn gofyn am arloesi. Nodwyd y cyfle i bennu dyheadau yn y Cynllun Corfforaethol newydd.
43. Cytunwyd y dylid trefnu digwyddiad 'hacathon' i ryddhau ac ysgogi symudiad ar arloesedd. Argymhellodd y Cadeirydd y dylai'r Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth greu grŵp sy'n cynnwys tri neu bedwar aelod o'r Bwrdd i gynllunio digwyddiad i weithio drwy'r syniadau a'r materion sy'n gysylltiedig ag arloesi.

## **GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth i sefydlu grŵp i gynllunio digwyddiad i weithio trwy'r syniadau a'r materion sy'n gysylltiedig ag arloesi yn CNC.**

### **Eitem 5: Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Thryloywder yng Nghyfarfodydd y Bwrdd**

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd; Kate Evans, Materion Cyhoeddus ac Ysgrifennydd Preifat

44. Symudwyd yr eitem hon i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr.

### **Eitem 6: Rhagolwg y Bwrdd**

Cyflwynydd: Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd

45. Rhannodd y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd ddogfen Rhagolwg y Bwrdd a rhoi trosolwg. Nodwyd y byddai eitem Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei lledaenu dros sawl cyfarfod i ddilyn.
46. Nododd y Bwrdd y Rhagolwg.

### **Eitem 7: Unrhyw Fater Arall**

47. Roedd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau wedi'i ddsbarthu am sylwadau cyn y cyfarfod. Cymeradwyodd y Bwrdd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y canlynol: Bwrdd CNC; y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; y Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd; y Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid; y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig.

## **CYMERADWYWYD: Y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgorau.**

48. Gwnaeth Mark McKenna sylw pellach ar y trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd a nodi y byddai'n dda cael safbwynt o'r tu allan i Gymru a'r DU. Gallai dysgu o'r dull a gymerwyd gan sefydliadau tramor ddarparu mewnbwn gwerthfawr i'r drafodaeth wrth symud ymlaen.

49. Cynhaliwyd trafodaeth breifat o'r Bwrdd.

### **- Caeodd cyfarfod y Bwrdd –**

#### **Sesiwn Holi ac Ateb y Cyhoedd**

50. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd ac esbonio bod opsiynau eraill ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu datblygu.

51. Derbyniodd y Bwrdd gwestiynau gan:

- a) Mr Justin Davies o Câr-y-Môr ar faterion trwyddedu morol.
- b) Mr Kim Waters o Undeb Afonydd Cymru ar faterion ansawdd dŵr, yn enwedig o ran yr Afon Gwy a'r Wysg.
- c) Mr Lloyd Evans ar gyflwr dalgylch afon di-ACA y Taf.
- d) Mr James Wallace, Prif Swyddog Gweithredol River Action, ar sicrhau digon o gyllid i fynd i'r afael â materion ansawdd dŵr.
- e) Derbyniwyd sylw gan Mark Barrow ar garthffosiaeth a llygredd amaethyddol mewn afonydd a'r bygythiad i ecosystemau ac iechyd y cyhoedd.

### **- Caewyd y cyfarfod –**



Cyfarfodydd Bwrdd										
Rhif	Categori Cyfarfod	Dyddiad Cyfarfod	Rhif Eitem	Rhif Paragraff	Noddwr Papur	Cam Gweithredu	Perchennog	Erbyn	Statws	Nodiadau/Diweddariadau
41	Cyhoeddus	26/05/2022	7	46	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP; Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol	CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i ddatblygu'r gwaith llywodraethu ar is-bwyllgor newydd y Bwrdd ar y dull o ymdrin â thir a reolir gan CNC.	Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol	23/03/2023	Parhaus	Cytuno ar gylch gorchwyl yng nghyfarfod cyntaf Pwyllgor Ystâd Tir CNC ar 19/01/23 a'i gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.
51	Cyhoeddus	14/07/2022	8	40	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol yr EPP	CAM GWEITHREDU: Dosbarthu diweddarad i aelodau'r Bwrdd am brosiect Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog.	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	17/08/2022	Parhaus	Gyda phennaeth gweithrediadau'r De-orllewin i'w hadolygu.
64	Cyhoeddus	16/11/2022	2	3	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i adolygu'r cofnodion ar gyfer gwelliant awgrymedig Zoe Henderson.	Ysgrifenyddiaeth	14/12/2022	Cwblhawyd	Cyhoeddi fersiwn diweddaraf ar y wefan
65	Cyhoeddus	16/11/2022	5	15	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Trosglwyddo adborth cadarnhaol gan y Bwrdd ar y Gynhadledd Dystiolaeth i'r tîm.	Ysgrifenyddiaeth	02/12/2022	Cwblhawyd	Anfonwyd e-bost ar 02/12/22
66	Cyhoeddus	16/11/2022	5	22	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth i gynnwys diweddariadau gan fforymau eraill CNC yn eitem agenda'r Bwrdd ar Ddiweddariadau Pwyllgorau.	Ysgrifenyddiaeth	06/01/2023	Cwblhawyd	Cysylltwyd ag arweinwyr Fforwm CNC, ac ar yr agenda ar gyfer Bwrdd Ionawr
67	Cyhoeddus	16/11/2022	6	26	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid i ystyried y ffordd orau o ddiweddarau'r Bwrdd ar benderfyniadau ariannol allweddol ar gyfer 2023-24.	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd	10/01/2023	Cwblhawyd	Bydd y Bwrdd yn derbyn diweddariad ym mis Ionawr a diweddariad pellach gyda'r adborth y gofynnir amdano yn dilyn Pwyllgor Cyllid mis Chwefror. Yna bydd y gyllideb derfynol yn cael ei chyflwyno ym mis Mawrth.
68	Cyhoeddus	16/11/2022	7	31	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol	CAM GWEITHREDU: Dosbarthu'r Achos Busnes dros lety swyddfa Caerdydd i'r Bwrdd.	Victoria Rose-Piper, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio	26/01/2023	Cwblhawyd	
69	Cyhoeddus	16/11/2022	9	37	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i adolygu'r protocolau ar gyfer defnyddio chwynladdwr yn swyddfeydd Dolgellau.	Victoria Rose-Piper, Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Busnes ac Adfywio	09/01/2023	Parhaus	Arweinydd Tîm, Fflyd a Chyfleusterau, i ddiweddarau ar brocolau chwynladdwyr
69a	Cyhoeddus	16/11/2022	9	36	Syr David Henshaw	CAM GWEITHREDU: Cyfarfod i'w drefnu rhwng y tîm lleol a Chadeirydd Ardal Draenio Mewnol Dysynni.	Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin	09/01/2023	Cwblhawyd	Mae'r tîm lleol yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r IDD. Ddydd Llun 12 Rhagfyr, cafwyd cyfarfod rhwng Rheolwr Gweithrediadau, Tir ac Asedau, a'r AS lleol, cynrychiolwyr FUW ar gyfer Ardal Draenio Mewnol Dysynni. Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Chadeirydd Ardal Draenio Mewnol ar gyfer 19
70	Cyhoeddus	17/11/2022	4	43	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol EPP	CAM GWEITHREDU: Y Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth i gynnull grŵp er mwyn trefnu digwyddiad i weithio drwy'r syniadau a'r materion sy'n ymwneud ag arloesedd yn CNC.	Chris Collins, Pennaeth Gwybodaeth a Thystiolaeth	11/01/2023	Cwblhawyd	Cyfarfod mewn dyddiaduron ar gyfer 11 Ionawr 2023



# Papur Bwrdd CNC

	Manylion y Papur
Teitl y Papur:	Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol
Cyfeirnod y Papur:	23-01-B07
Noddir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Cyflwynir y Papur gan:	Clare Pillman, Prif Weithredwr
Diben y Papur	Gwybodaeth/Trafodaeth

## Cyflwyniad

1. Wrth i mi ysgrifennu hyn mae'n pistyllio bwrw eto, ac mae yna rybudd melyn, ynghyd â rhybuddion llifogydd ar hyd a lled Cymru. Mae bron yn anghredadwy ein bod yn ymdrin ag effeithiau sychder ychydig fisoedd yn ôl. Ond gyda'r ddaear yn troi'n fwyfwy dyfrlawn a'r rhagolygon yn awgrymu mis Chwefror gwlyb, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid a'r cyhoedd i bwysleisio negeseuon am gadernid a pharatoi ar gyfer llifogydd. Ar wahân i'r tywydd, cafwyd misoedd heriol unwaith eto, gydag effaith Covid a'r lefelau uchel o anhwylderau eraill ledled y wlad i'w gweld yma yn Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd. Ac mae'r bygythiad o weithredu diwydiannol yn parhau i effeithio ar gynllunio ein parhad busnes ni – a'n partneriaid.
2. Roedd cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yn brysur i lawer o'n cydweithwyr, a'r glaw yn tueddu i ddisgyn yn drwm ar wyliau banc! Er ein bod i gyd yn gweithio'n galed gydol y flwyddyn, rwy'n ddiolchgar bob amser i'r rhai sy'n gwirfoddoli i lenwi'r bwch ar rotas yr adeg hon o'r flwyddyn ac sy'n mynd yr ail filltir fel bod cydweithwyr yn gallu mwynhau seibiant.
3. Gwelsom rai newidiadau personél yn Llywodraeth Cymru, gyda Gian Marco Curado yn ymgymryd â'r rôl a wnaed yn flaenorol gan Tim Render, yn arwain ar ddiwygio amaethyddiaeth a materion gwledig, a Claire Bennett, Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru sy'n gwasanaethu ers amser maith, sydd â phrofiad blaenorol o friffiau'r Amgylchedd a Hinsawdd, yn cymryd lle Gian Marco, gan gynnwys nawdd ffurfiol CNC. Mae Claire yn dechrau ei swydd newydd ar 27 Chwefror a byddwn yn ceisio ei gwahodd draw i rywfaint o gyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Ymddeolodd y Prif

Filfeddyg, Christianne Glossop, ym mis Hydref, ac mae ei holynydd, Dr Richard Irvine, newydd ei gyhoeddi.

- Wrth i gyfnod Comisiynydd presennol Cenedlaethau'r Dyfodol, Sophie Howe, ddod i ben, mae ei swyddfa wedi cyhoeddi rhestr o 100 o bobl gydnabyddedig sy'n "newid pethau" – pobl ysbrydoledig ddaeth â newid cadarnhaol yng Nghymru yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rwy'n falch iawn bod cydweithwyr CNC wedi eu cydnabod ar y rhestr hon, ac edrychwn ymlaen at barhau â'n perthynas agos â'r Swyddfa pan fydd y Comisiynydd newydd, Derek Walker, yn dechrau ei rôl newydd yn y gwanwyn.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

- Yn dilyn lansio adroddiad Nature Positive 2030 cyn Cynhadledd y Partïon (COP26) yn 2021, parhaodd ein gwaith i hyrwyddo pwysigrwydd cefnogi adferiad natur y llynedd wrth i Syr David a minnau ymuno â chyd-arweinwyr asiantaethau cadwraeth natur y DU yn y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain ar 23 Tachwedd i lansio datganiad a oedd yn galw am weithredu brys i adfer natur er budd ffyniant economaidd a llesiant cymdeithasol y DU yn y dyfodol, cyn digwyddiad COP15.
- Gerbron cynulleidfa o bartneriaid a rhanddeiliaid amgylcheddol, daethom at ein gilydd fel un llais i danlinellu ein huchelgais ar y cyd i gefnogi pedair llywodraeth y DU i wneud mwy i atal dirywiad rhywogaethau a bioamrywiaeth, er mwyn gweithredu ymhellach ac yn gyflymach ar adferiad natur a gwneud llawer mwy i gysoni'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Mae'r datganiad a'r cyfraniadau gan bawb fu'n rhan o'r digwyddiad wedi cael croeso cynnes ac wedi rhoi'r llwyfan i ni dynnu sylw at sut mae Cymru eisoes yn arwain y blaen wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau bioamrywiaeth a'r hinsawdd gyda'i gilydd cyn COP15. Edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith fel rhan o'r grŵp Cyrff Cadwraeth Natur statudol yn 2023.
- Yn ddiweddarach yr wythnos honno, treuliais ddiwrnod pleserus gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Law yn llaw â Craig Bennett, Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth Natur y DU, cawson daith o gwmpas safle Tirwedd Byw Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, Gwarchodfa Natur Aberduna a phrosiect Tirweddau Byw Alun a Chwiler.
- Yn anffodus, bu'n rhaid imi golli'r Ffair Aeaf oherwydd Covid, ond hoffwn ddiolch i Dav Letellier a Marc Williams am gymryd fy lle mewn cyfarfodydd a drefnwyd gyda'r Undebau Amaethyddol, ac i'r holl gydweithwyr a fynychodd dros y deuddydd. Roedd hi'n braf bod Martyn Evans yn gallu bod yno i ateb cwestiynau am yr Adolygiad Strategol o Godi Tâl (SRoC).
- Cyn y Nadolig, cefais gyfarfod â Dr Nerys Llewelyn Jones, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd, a David Clubb, Cadeirydd y Comisiwn Isadeiledd. Cefais gyfarfod rhagarweiniol hefyd gyda Nick Millington, Cyfarwyddwr Dros Dro newydd Cymru yn Network Rail, a chyfarfod â Huw Irranca-Davies, AS Ogwr, a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn y Senedd.

11. Mae Syr David a minnau wedi cyfarfod ar wahân neu gyda'n gilydd â'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar sawl achlysur i drafod pob math o faterion, gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, ein setliad cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Hefyd, cawsom gyfarfod gyda'r Prif Weinidog i drafod ynni adnewyddadwy'r môr.

## Materion Strategol

### Adolygiad Strategol o Ffioedd a Thaliadau Rheoleiddio (SRoC)

12. Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos ym mis Hydref 2022 ar ein ffioedd a thaliadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer 2023/24, sy'n seiliedig ar egwyddorion adfer costau llawn. Rydym yn defnyddio'r ymgynghoriad i ddeall sut y gallai ein cynigion codi tâl effeithio ar y rhai sy'n gwneud cais i CNC am ganiatâd i gynnal gweithgareddau rheoleiddio.
13. Ar 3 Ionawr 2023, roeddem wedi derbyn 64 o ymatebion. Mae dros hanner yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer y sector amaethyddol; mae hyn yn cyd-fynd â phwyslais y wasg a'r cyfryngau ar y cynnydd arfaethedig i godi ffioedd am geisiadau i waredu dip defaid gwastraff ar dir.
14. Rydym wedi creu asesiad effaith i ddeall yr effaith ariannol bosib y gallai'r cynigion codi tâl ei chael ar y sector amaeth. Mae'r asesiad hwn, a rannwyd â swyddogion perthnasol Llywodraeth Cymru, yn dod i'r casgliad bod y cynigion codi tâl yn berthnasol i is-set fach o ffermydd, ac na fydd yr un cynllun codi tâl arfaethedig yn effeithio ar fwy nag 1% o ffermydd yng Nghymru.
15. Rydym yn cydnabod bod ein cynigion yn cyd-daro â phwysau ariannol ehangach yn sgil chwyddiant ac effeithiau dilynol costau byw uwch. Fodd bynnag, rhaid cydbwysu'r pryderon real iawn hyn â'n gofyniad i gadw at egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Reoli Arian Cyhoeddus Cymru, er mwyn hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu trwy'r argyfyngau hinsawdd a natur.
16. Bydd y taliadau arfaethedig yn helpu i gefnogi'r blaenoriaethau hyn drwy sicrhau bod ein timau Trwyddedu yn cael adnoddau cynaliadwy i ddarparu trwyddedau sy'n cefnogi busnes ac yn amddiffyn yr amgylchedd yn rhagweithiol. Hefyd, bydd incwm a fyddai fel arall wedi'i ddefnyddio i ariannu'r diffyg gweithgaredd trwyddedu'n cael ei ryddhau i dalu am waith cydymffurfio. Mae ein hamcangyfrifon, yn seiliedig ar nifer y trwyddedau a ragwelir yn 2023/24 a chan ystyried y pwysau ariannol ac economaidd cyfredol, yn cyfateb i £2.5 miliwn o incwm ychwanegol a ragwelir.
17. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben ar 7 Ionawr. Byddwn yn defnyddio'r adborth i lywio ein cynlluniau codi tâl newydd, yr ydym yn gobeithio eu gweithredu o 1 Ebrill ymlaen, yn amodol ar gymeradwyaeth fewnol a Gweinidogol. Credwn y gellir cyflawni llawer yn sgil yr adolygiad, gan alluogi CNC i ddarparu gwasanaeth rheoleiddio sy'n cael ei werthfawrogi, sy'n gadarn, ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

### Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru a Map Trywydd ar gyfer Gorlifoedd Stormydd

18. Law yn llaw â Llywodraeth Cymru, Ofwat, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, rydym wedi sefydlu Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd yng Nghymru a chyflwyno cynlluniau manwl i sbarduno gwelliant cyflym. Mae Afonydd Cymru a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn darparu cyngor annibynnol i'r tasglu, gan gynnig dealltwriaeth a her o safbwynt rhanddeiliaid a chwsmeriaid.
19. Ar 5 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Tasglu Fap Trywydd Gorlifoedd Stormydd ar gyfer Cymru yn cynnwys pum cynllun gweithredu manwl gydag amcanion clir a chanlyniadau mesuradwy er mwyn cyflawni gwelliannau i reolaeth gorlifo yn y tymor byr a'r tymor hir. Ym mis Rhagfyr, fe wnaethom roi diweddariad i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y cynnydd tuag at gynnwys gorlifoedd stormydd 'didrwydded' o fewn y drefn reoleiddio, mewn perthynas ag argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2022 ar Orlifoedd Stormydd.

### **Cyhoeddi Cynllun Traws-ffiniol Rheoli Basn Afon Hafren**

20. Yr haf diwethaf, cyhoeddwyd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon diweddaraf ar gyfer Gorllewin Cymru a Basn Afon Dyfrdwy. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren, dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cydweithrediad â'n timau, ar 22 Rhagfyr 2022, gan gwblhau'r set yng Nghymru.
21. Mae'r cynlluniau hyn, sy'n cael eu diweddarau bob chwe blynedd, yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer sut y byddwn yn rheoli, diogelu, ac yn gwella ein hamgylchedd dŵr yng Nghymru. Mae ein hafonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dyfroedd daear, aberoedd, a dyfroedd arfordirol – gan gynnwys rhai mewn ardaloedd gwarchoddedig – i gyd yn dod o dan y cynlluniau. Mae'r broses yn caniatáu i ni ddatblygu dealltwriaeth fanwl o gyflwr ein hamgylchedd dŵr, y pwysau arno a pha fesurau sydd eu hangen i'w wella a'i ddiogelu, gan ddefnyddio tystiolaeth bresennol a newydd.
22. Mae blynyddoedd o waith gan ein harbenigwyr ym mhob maes o ansawdd dŵr a rheolaeth yn cyfrannu at gynhyrchu'r cynlluniau, gan weithio ochr yn ochr â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Bu'n gylch cynllunio arbennig o anodd oherwydd heriau Covid, ailgyfeirio adnoddau a'r sylw cyhoeddus a gwleidyddol parhaus ar ansawdd dŵr.
23. Mae'r cyfnod cynllunio wedi dod i ben erbyn hyn, ac rydym yn symud at gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn y cynlluniau.

### **Adolygiad Prisiau 24 (PR24)**

24. Mae CNC yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Ofwat, cwmnïau dŵr a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i nodi gofynion y rhwymedigaethau amgylcheddol ar gwmnïau dŵr sydd ar waith yng Nghymru, i'w cynnwys yn eu cyflwyniad cynllun busnes PR24 i Ofwat ym mis Hydref 2023.
25. Bydd PR24 yn sefydlu'r cyllid ar gyfer buddsoddi mewn cwmnïau dŵr yn Rhaglen Rheoli Asedau 8 (AMP8 2025-30). Mae maint y buddsoddiad sydd ei angen yn sylweddol ac mae angen mynd i'r afael â'r effeithiau presennol ar yr amgylchedd, atal effeithiau pellach a sicrhau bod asedau ac adnoddau cwmnïau dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar gyfer cwsmeriaid heddiw ac yfory.
26. Mae cynllunio ar gyfer effeithiau hinsawdd y dyfodol yn allweddol i'r broses o wneud penderfyniadau. Gwahoddwyd y cwmnïau dŵr i gyflwyno eu cynigion PR24 i Fwrdd

CNC ym mis Tachwedd 2022. O ystyried maint a chyflymder y buddsoddiad sydd ei angen i fynd i'r afael â niwed ac atal niwed, a sicrhau bod eu gweithgareddau'n fwy gwydn i newid hinsawdd, rydyn wedi gofyn iddyn nhw ddychwelyd i'n sesiwn ym mis Mai 2023 cyn cyflwyno'u cynlluniau drafft yn ffurfiol i Ofwat ym mis Hydref 2023.

27. Mae angen dull "Tîm Cymru" i gyflawni'r fath waith ar raddfa ac ar gyflymder i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae angen i sectorau eraill, fel amaethyddiaeth, weithredu ochr yn ochr â chwmnïau dŵr er mwyn sicrhau'r canlyniadau uchelgeisiol yr hoffem eu gweld.

### **Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)**

28. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill ar y Cynllun Gweithredu Afonydd ACA drafft a ddyfynnwyd yn Natganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog yn dilyn yr Uwchgyhadledd Ffosffad a gynhaliwyd yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf ac y cyfeiriwyd ato yn natganiad Julie James (y Gweinidog Newid Hinsawdd) ar ansawdd dŵr ym mis Tachwedd. Y bwriad yw cynnal Uwchgyhadledd ddilynol ar 9 Chwefror yng Nghaerdydd ac mae'n Cadeirydd wedi cael cais gan y Gweinidog i gynnull cyfarfod cyn hyn gyda'r cyfranwyr allweddol.

29. Yn y diweddariad hwn rydym wedi canolbwyntio ar beth mae CNC wedi'i gyflawni yn y prosiect hyd yn hyn.

- Rydym wedi gosod y targedau ansawdd dŵr ar gyfer yr afonydd, wedi cyhoeddi'r asesiad cydymffurfio Ffosffad (ac wedi awtomeiddio sut Rydym yn gwneud hyn yn fwy effeithlon yn y dyfodol) ac wedi diweddarau'r targedau ansawdd dŵr yn y Cynlluniau Rheoli Craidd ar gyfer pob afon ACA sy'n methu. Mae'r cyngor cynllunio diweddaraf i Awdurdodau Cynllunio wedi'i rannu bellach ac mae ar ein gwefan, ac mae gwaith ar fersiwn 4 yn dechrau. Mae ein safbwynt trwyddedu interim, lle rydym wedi rhwystro ffosffad ychwanegol rhag mynd i afonydd ACA wedi'i rannu bellach ac yn cael ei roi ar waith. Mae'r rhai sy'n gwneud ceisiadau wedi cael eu cynghori a chael opsiwn i dynnu'n ôl, gyda 36 wedi gwneud hyn hyd yma.
- Rydym wedi hwyluso'r broses o sefydlu'r Byrddau Rheoli Maetholion (ac eithrio Bwrdd Afon Gwy sydd eisoes wedi'i sefydlu) drwy ddod â'r swyddogion perthnasol ynghyd a rhannu cylch gorchwyl drafft. Hefyd, rydym wedi gwahodd swyddogion o Swydd Henffordd i fod yn rhan o'r grŵp ac i ddysgu o'u profiad ar Afon Gwy.
- O ran y Cynllun Gweithredu Ffosffad, rydym wedi drafftio manyleb i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfrifiannell cyfrifo maetholion Cymru gyfan maen nhw'n arwain y broses gaffael arni. Hefyd, rydym wedi adolygu cyfrifiannell cyfrifo maetholion Sir Gâr ac wedi cyhoeddi barn sy'n tynnu sylw at y ffaith er bod rhai cwestiynau o ran rhagdybiaethau sydd angen eu hadolygu, mae'n dderbyniol ei ddefnyddio nawr tra bod cyfrifiannell Cymru gyfan yn cael ei datblygu.
- Mae ein hegwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan ac maen nhw'n nodi'r egwyddorion i'w dilyn pan fydd cynigion sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael eu hystyried gan rai sy'n gwneud penderfyniadau gan gynnwys CNC. Rydym wedi rhannu rhestr o opsiynau lliniaru drafft i'w cynnwys yn y dull dewislen y manylir arno yn y Cynllun Gweithredu.

- Casglwyd tystiolaeth ychwanegol (sondiau ar gyfer treial afon Gwy a samplu diatom ac infertebratau ar afon Gwy) yn ogystal â diogelu'r gwaith monitro ansawdd dŵr rydym yn ei wneud yn yr afonydd ACA. Mae data a gafwyd hyd yma wedi'i ddefnyddio i olrhain effeithiau tywydd poeth a sychder yr haf a'r mesurau a roddwyd ar waith i liniaru ei effeithiau. Rydym yn ymchwilio i gyfleoedd i osod telemetreg er mwyn cael data amser real ac ymestyn y rhwydwaith sondiau i ddalgylchoedd ACA eraill.
- Rydym wedi gweithio gyda Dŵr Cymru ar ddatblygu System Gwybodaeth Ddaearyddol Dosrannu Ffynonellau (SAGIS) sydd wedi cynnwys ein sicrwydd ansawdd annibynnol ein hunain o'r modelau a chyhoeddi adroddiadau annhechnegol drafft ar raddnodi ar gyfer pedwar o'r ACAau sy'n methu. Hefyd, Rydym yn parhau i weithio gyda Dŵr Cymru ar ofynion afonydd ACA fel rhan o Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd.
- Mae ymateb i lu o ymholiadau gan Aelodau Seneddol, Aelodau'r Senedd, y wasg, y cyhoedd, datblygwyr, ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i fod yn faes sy'n gofyn llawer ac yn adweithiol. Mae gennym gynrychiolaeth ar sawl grŵp allanol o hyd, megis Grŵp Goruchwyllo Llywodraeth Cymru, yr is-grŵp Cynllunio a arweiniwyd gennym i ddechrau, a'r is-grŵp Amaethyddiaeth sydd ar fin cael ei ffurfio. Cawsom gyfarfodydd gyda sawl datblygwr hefyd ac rydym wedi bod yn rhan o gyfarfodydd penodol gydag adrannau amrywiol Llywodraeth Cymru – gyda'r diweddaraf mewn perthynas â datblygiadau tai cymdeithasol ac ymrwymïadau'r rhaglen lywodraethu.
- Gydol hyn oll, rydym wedi ymroi i rannu'r manylion diweddaraf â'n staff ein hunain drwy weminarau, adroddiadau uchafbwyntiau misol a diweddariadau trwy gyfrwng grwpiau amrywiol.

30. Rydym yn ddibynnol ar eraill yn chwarae eu rhan yn cefnogi'r gwaith hwn a gweithredu ar sail dull tîm Cymru. Mae angen i Dŵr Cymru fwrw ymlaen â'u rhaglen fonitro ar gyfer y safleoedd lle byddwn yn cyflwyno terfynau olaf un (backstop) ffosffad. Bydd oedi gyda hyn yn effeithio'n sylweddol ar wybod a oes unrhyw hyblygrwydd yn y trwyddedau. Bydd angen i Fyrddau Rheoli Maetholion, sy'n allweddol i symud ymlaen a gweithio ar y cyd, gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion gan sicrhau bod camau'n cael eu cyflawni.

31. Mae rôl i Ofwat gytuno i'r cynlluniau gwella ffosffad yn gynharach na mis Rhagfyr 2024 neu fel arall gallai penderfyniadau cynllunio sydd eisïau cysylltu â gwaith trin o'r fath gael eu gohirio. Yn olaf, bydd angen i'r sector amaeth gyfrannu at Fyrddau Rheoli Maetholion, er mwyn cydnabod ei fod yn rhan sylweddol o'r broblem (mwy mewn rhai dalgylchoedd nag eraill) a chytuno i gyflawni rhai o'r camau perthnasol yn y Cynlluniau Rheoli Maetholion.

### **Natur am Byth! – Rhaglen adfer rhywogaethau ac ymgysylltu â phobl**

32. Mae ein partneriaeth adfer natur flaenllaw rhwng CNC a naw elusen amgylcheddol bron â chwblhau cam datblygu deunaw mis o waith cynllunio, ymgynghori a chodi arian. Bydd y gwaith yn dod i ben gyda chais cyllid cam darparu ar 23 Chwefror i ofyn am £4.1 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, er mwyn cefnogi rhaglen weithredu pedair blynedd gwerth £7.3 miliwn ar gyfer adfer rhywogaethau ac ymgysylltu â'r

gymuned. Bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar 11 o brosiectau seiliedig ar leoedd, pob un wedi'i arwain gan un o'r sefydliadau partneriaeth, gyda CNC yn gyfrifol am lywio'r rhaglen gyflawni gyffredinol sy'n cynnwys menter genedlaethol ymgysylltu â'r celfyddydau, strategaeth gyfathrebu, cynllun lleoliadau hyfforddeion, a rhaglen hyfforddi ar gyfer staff, perchnogion tir a gwirfoddolwyr.

33. Mae 146 o safleoedd wedi'u proffilio ar gyfer rheoli a monitro cynefinoedd er mwyn cyflawni camau gweithredu ar gyfer 68 o rywogaethau targed sydd wedi'u categoreiddio fel rhai sydd mewn perygl o ddiplannu yng Nghymru neu sy'n dirywio'n ddifrifol. Gydol y cyfnod datblygu a ariennir, mae tîm o 13 o staff partneriaeth wedi ymgynghori â 4,000 a mwy o aelodau'r cyhoedd gyda 325 o weithgareddau wyneb yn wyneb ac ar-lein i benderfynu beth mae adferiad rhywogaethau'n ei olygu i'w cymunedau. Cadarnhaodd yr adborth bod y cyhoedd angen cefnogaeth a'u rhoi ar ben ffordd o ran sut y gallant weithredu ar ran natur ar garreg y drws; mae hyn wedi helpu i lunio ein rhaglen weithgareddau i fod yn gynhwysol, cyrraedd cynulleidfaoedd llai amlwg ac adeiladu llysgenhadon natur y dyfodol.
34. Nod Natur am Byth yw cyflwyno rhaglen arloesol o ymwneud â'r celfyddydau, gan ddod â straeon am rywogaethau dan fygythiad yng Nghymru yn fyw, a gweithio gydag lechyd Cyhoeddus Cymru i fesur y canlyniadau llesiant i'r rhai sy'n cymryd rhan. Gan adeiladu ar y bartneriaeth strategol rhwng CNC a Chyngor y Celfyddydau, rydym wedi cydweithio i greu proses gomisiynu o safon ar gyfer tîm o weithwyr proffesiynol celfyddydol llawrydd ar draws y prosiectau sy'n seiliedig ar leoedd ac wedi'u curadu'n genedlaethol i ddod â'r negeseuon cyhoeddus a'r gwaith celf ynghyd mewn arddangosfa sy'n dathlu natur Cymru.
35. Mae arbenigwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi gweithio gyda'r bartneriaeth i broffilio cynulleidfaoedd newydd sy'n adlewyrchu amcan ein rhaglen i greu sector amgylchedd mwy cadarn yng Nghymru, sydd ag adnoddau gwell i sicrhau adferiad gwyrdd. Mae'r dull hwn wedi'i groesawu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri sy'n rhoi pwyslais ar yr angen i'n sector ymwneud ag ystod ehangach o bobl. Os yw cais y cam cyflenwi a'r arian cyfatebol cysylltiedig yn llwyddiannus, bydd y rhaglen hon yn newid statws ei phartneriaid yng Nghymru – yn uwchsgilio staff, gwirfoddolwyr a charfan o hyfforddeion newydd i gyflwyno adferiad natur i gynulleidfa ehangach.

### **Afancod yng Nghymru**

36. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni weithio gyda nhw i flaenoriaethu adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi a safbwynt ar ailgyflwyno afancod yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r safbwynt o ran amddiffyniad cyfreithiol posib i afancod yng Nghymru yn y dyfodol hefyd
37. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith polisi yng Nghymru, mae staff arbenigol a thechnegol CNC yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar afancod yn awr, gan ei hystyried yng nghyd-destun amgylchedd Cymru a pholisi amgylcheddol a fframwaith cyfreithiol Cymru. Mae staff yn defnyddio'r adolygiadau dystiolaeth presennol o'r Alban a Lloegr er mwyn asesu sut y gallent fod yn berthnasol i Gymru a nodi unrhyw fylchau mewn dystiolaeth. Y bwriad yw cwblhau'r adolygiad erbyn gwanwyn 2023.



## Materion Gweithredol

### Cyflwyno gweithdrefnau newydd ar ddiogelwch tomenni glo etifeddol

38. Mae CNC wedi bod yn gweithio gyda'r Awdurdod Glo ar ddull newydd o archwilio tomenni glo etifeddol ar ôl glaw trwm. Mae'r weithdrefn newydd yn berthnasol i'r deg tomen lo risg uchaf ar Ystad Goed Llywodraeth Cymru, ac fe'i sbardunir pan fydd ein gorsafoedd hydrometreg a thelemetreg presennol ger tomen lo yn cofnodi dros 40mm o law mewn 24 awr am ddau ddiwrnod yn olynol. Mae hyn yn sbarduno rhybudd i'r Awdurdod Glo gynnal archwiliad o'r domen o fewn 24 awr. Mae'r system yn anfon neges at swyddogion dyletswydd CNC hefyd.

39. Sbardunwyd y drefn newydd am y tro cyntaf yn dilyn glaw ar 20 Rhagfyr, pan aeth yr Awdurdod Glo ati i gynnal archwiliadau ar dair tomen etifeddol ar dir a reolir gan CNC. Wedi hynny, argymhellodd yr Awdurdod Glo fod angen gwneud mân welliannau draenio yn un o'r tri safle a archwiliwyd.

### Dileu'r Llyfrothen Uwchsafn – Llynnoedd Parc Dŵr y Sandy, Llanelli

40. Cynhaliodd CNC a Chyngor Sir Gâr ddigwyddiad galw heibio ar gyfer preswylwyr a defnyddwyr Parc Arfordirol y Mileniwm Llanelli ar 5 Ionawr. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth â'r cyhoedd am waith sy'n dechrau'n ddiweddarach y mis hwn (gyda chefnogaeth Asiantaeth yr Amgylchedd) i ddileu llyfrothod uwchsafn, sy'n bysgod anfrodorol ymledol (INNS), o'r llynnoedd.

41. Daeth dros 100 o aelodau'r cyhoedd i ddysgu mwy am y gwaith arfaethedig, sy'n cynnwys defnyddio cemegyn pwrpasol i ladd y pysgod, gostwng lefelau'r dŵr yn y llynnoedd a'r angen i eithrio'r cyhoedd o'r safle yn ystod y gwaith. Aeth y digwyddiad cyhoeddus yn dda gydag adborth cadarnhaol gan gynghorwyr lleol, fel y gwnaeth sesiwn ymgysylltu ddilynol gydag aelodau o'r diwydiant cocos na gododd unrhyw bryderon ynghylch y defnydd o gemegau a'r effaith ar gocos.

42. Er ei fod yn bysgodyn bach, mae'r llyfrothen uwchsafn yn bygwth pysgod brodorol ym Mhrydain yn arbennig. Yn ogystal â bwyta wyau pysgod eraill, maen nhw'n magu'n gyflym ac yn drech na physgod brodorol wrth chwilio am fwyd a chynefinoedd ac yn gallu cario parasitiaid a chlefydau newydd sy'n niweidiol i'n rhywogaethau brodorol. Mae eu presenoldeb yn y llynnoedd nid yn unig yn bygwth y bywyd gwyllt lleol ond pe baen nhw'n lledaenu, gallent gael effaith ddifrifol yn genedlaethol.

43. Mae'r rheolaeth ym Mharc Dŵr y Sandy yn rhan o raglen bum mlynedd sy'n canolbwyntio ar lyfrothod uwchsafn fel rhywogaeth o bryder arbennig a restrir dan Reoliad yr UE a ddargedwir 1143/2014 a Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 Ni hefyd yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer Deddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw 1975 a Deddf Mewnforio Pysgod Byw 1980. Mae hyn yn ein galluogi i reoleiddio symudiad a chadw pysgod yn y gwyllt. Rydym yn trin, rheoli a lle bo angen dileu pysgod estron goresgynol i amddiffyn ein hamgylchedd dyfrol a'r pysgodfeydd gwerthfawr y mae'n eu cefnogi.

### Secondiad Tanau Gwyllt

44. O fis Ionawr 2023 ymlaen, bydd Rheolwr y Grŵp, Craig Hope o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn cael ei secondio i CNC am chwe mis er mwyn darparu cyngor technegol arbenigol ar gyfer tanau gwyllt yng Nghymru.
45. Bydd yn canolbwyntio ar waith atal strategol a gwaith rhagweithiol y gallwn ei gyflawni ledled y wlad mewn amrywiaeth o gynefinoedd a thirweddau er mwyn paratoi ar gyfer y perygl cynyddol o danau gwyllt a ragwelir wrth i'r hinsawdd newid yn y dyfodol. Hefyd, bydd ei waith yn datblygu ein hymateb mewnol, dull partneriaeth a rheoli tanau gwyllt ar yr ystadau a reolwn.
46. Bydd Craig yn rhan o'r Prosiect Llethrau Llon yn y De, ond bydd yn gweithio'n fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid allweddol ledled Cymru i greu Pecyn Cymorth Tanau Gwyllt amlswyddogaethol, i helpu i leihau difrifoldeb tanau gwyllt a pharatoi CNC a'n partneriaid allanol yn well ar gyfer risg tanau gwyllt.

## Datblygiadau Masnachol Cynaliadwy

### Rhaglen Datblygwr Ynni Adnewyddadwy

47. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Lleol i ystyried sut y bydd y bwrdd datblygwr newydd yn gweithredu ac a fyddai unrhyw newid i'r modd y mae CNC yn gweithredu o ran ffermydd gwynt. Y consensws yw y byddwn yn trin y datblygwr newydd fel y byddem yn trin unrhyw gwmni preifat ac y bydd unrhyw newid ym maint y llwyth gwaith. Er mwyn darparu ar gyfer y galw cryf disgwylidig am adnoddau, rydym wedi cynnig adnodd ychwanegol i'r tîm Masnachol a'r timau cyflawni yn y gogledd a'r de.
48. Bydd cyflwyniad ar y cyd sy'n cynnwys CNC a Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal ym Mhwyllgor Ystad Tir CNC ar 19 Ionawr, yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru a helpu i sicrhau bod eu gweledigaeth ar gyfer yr Ystad o ran ynni adnewyddadwy yn rhan o'n cynlluniau cyffredinol.

### Gwerthiant a Strategaeth Pren

49. Does dim newid sylweddol wedi bod yn amodau'r farchnad bren. Mae'r farchnad ar gyfer boncyffion wedi'u llifio yn araf, tra bod gwerthiant coed sglodion yn dda ar y cyfan. Mae'r farchnad adeiladu'n ansicr o hyd. Mae costau chwyddiant presennol yn effeithio ar gost cludo nwyddau, tra bydd anghenion llafur ac offer ychwanegol yn parhau i effeithio ar yr awydd i brosesu yn y gadwyn gyflenwi. Does dim disgwyl unrhyw newid gwirioneddol yn y pedwar mis nesaf.
50. Fodd bynnag, mae rhywfaint o hyder y bydd y galw am ddeunyddiau ffensio a deunydd paled yn gwella yn y gwanwyn, heb gyrraedd yr uchafbwyntiau arferol fodd bynnag. Cyhoeddwyd catalog gwerthu mis Chwefror 2023 cyn y Nadolig a diolch i ymdrech gydwethredol, dylem orffen y flwyddyn ar 97% o'r targed. Mae'r rhagolygon incwm pren ar gyfer 2022/23 yn parhau i fod yn £33.4 miliwn.
51. Mae'r Gweithgor Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren dan arweiniad Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd cynllunio i bennu strwythur y prosiect a'r cylch gorchwyl. Bydd gweithgor canolog bach yn cynnwys Llywodraeth Cymru, CNC, Confor, Woodknowledge Wales, Prifysgol Bangor a Pobl – gan gwmpasu'r diwydiant pren, tai,

tyfwyr, y byd academaidd a'r economi. Bydd grŵp cyfeirio llawer mwy ac ehangach i ddarparu mewnbwn, adolygiad ac adborth wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

## Ymgysylltu â Chwsmeriaid

### Cwynion

52. Cynhaliodd Archwiliad Mewnol archwiliad dilynol o'n gweithdrefn trin cwynion, lle gwnaethom gyflawni Cynnydd Da. Rydym wedi gwneud gwelliannau dros y ddwy flynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth drin cwynion ac yn cael hyfforddiant digonol, ac i symleiddio ein proses ond gan gynnal canlyniadau cadarn. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd wedi'u hymwreiddio yn y sefydliad a'n bod yn gwella ein gwasanaethau yn seiliedig ar adborth cwynion.
53. Cyflwynodd yr Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) fodel newydd y broses trin cwynion i'r Grŵp Tîm Arwain (LTG). Yn ôl y CSA, "The goal of good complaints processes is not to deliver fewer complaints. The goal is to maintain relationships, protect reputations and improve services for all users." Rydym wedi gweithredu'r polisi model newydd hwn yn CNC erbyn hyn.
54. Mae'r model newydd yn canolbwyntio ar ddull cymesur o ymdrin â chwynion. Dim ond dau gam sydd, y cyntaf yn golygu ateb anffurfiol cyflym o fewn deg diwrnod gwaith; mae'r ail yn gofyn am ymchwiliad ac ymateb ffurfiol o fewn ugain diwrnod gwaith. Mae gwybodaeth a data'n cael eu defnyddio i wella gwasanaethau i bawb, gyda pherfformiad yn cael ei adrodd a'i gyhoeddi bob chwarter.

### Safonau'r Gymraeg

55. Daeth gwasanaeth Cymraeg "Prynu Trwydded Pysgota â Gwialen" yn fyw ar wefan .gov ar 13 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn galluogi unrhyw un sydd eisiau prynu trwydded ar-lein i wneud hynny yn Gymraeg. Gweithiodd ein Tîm Cyfieithu'n agos gyda staff Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfieithu'r wybodaeth angenrheidiol a helpu i brofi'r gwasanaeth cyn ei lansio. Mae peth gwaith i'w wneud o hyd ar safle .gov i sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd y gwaith hwn yn parhau am y chwe mis nesaf.
56. Nid ydym wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â'r gwasanaeth prynu trwydded pysgota â gwialen ar-lein ers sawl blwyddyn. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r gwaith pellach sydd ei angen wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae'n ein cynghori a gweithio'n agos â ni ar y mater hwn.
57. Lansiad meddal oedd hwn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithio'n iawn. Byddwn ni'n hyrwyddo'r dewis Cymraeg newydd ar ein gwefan ac yn darparu dolen uniongyrchol i wefan .gov. Bydd negeseuon ychwanegol yn cael eu hanfon at randdeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach yn y flwyddyn newydd i hyrwyddo'r gwasanaeth ac er mwyn annog y rhai sy'n prynu trwyddedau pysgota â gwialen i ddefnyddio'r gwasanaeth Cymraeg.

## Materion Cyfathrebu a Digidol

58. Wrth i COP27 a COP15 ddechrau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, roedd ein gweithgareddau cyfathrebu yn drwm dan ddylanwad ein gwaith i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Manteisiwyd ar y cyfle i hyrwyddo amrywiaeth o brosiectau hinsawdd a natur yn cyd-fynd â themâu dyddiol COP27 a buom yn gweithio gyda BBC Cymru i ddatblygu pecyn cyfweiliad ar effaith newid hinsawdd ar fyd natur.
59. Hefyd, buom yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i ddarparu sesiwn unedig ar fynd i'r afael â'r argyfyngau yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru, ac fe wnaethom helpu i lansio prosiect Pedair Afon LIFE. Tynnwyd sylw at ystod o brosiectau bioamrywiaeth newydd a ariennir drwy'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur a'r Grantiau Cymunedau Gwydn yn ystod COP15 a pharhau i hyrwyddo ein prosiectau adfer mawndiroedd. Penllanw gwaith i ddatblygu'r datganiad ar y cyd gan gyrff natur statudol y DU sy'n galw am weithredu brys dros fyd natur oedd digwyddiad yn y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain y soniwyd amdano'n flaenorol; cefnogwyd hyn gan ymgyrch gyfathrebu wedi'i chydlynu gan gynnwys fideos o'r digwyddiad a gefnogodd ein gweithgarwch cyfathrebu ehangach ynghylch COP15.
60. Ym mis Tachwedd, parhaodd ein gwaith paratoi at y gaeaf, a oedd yn cynnwys ymgyrch cyfryngau cymdeithasol fach yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru i dynnu sylw at wasanaethau rhybuddion llifogydd a hysbysu allweddol CNC, gan weithio gyda'r Swyddfa Dywydd i rannu negeseuon am risg llifogydd y gaeaf a hyrwyddo negeseuon cryf am ymweld â'n safleoedd yn ddiogel yn ystod pyliau o dywydd oer.
61. Roedd ein negeseuon cyfathrebu am ein gwaith rheoleiddio'n canolbwyntio ar ganlyniadau erlyniadau llwyddiannus, cyhoeddi'r adroddiad Rheoleiddio Blynyddol ac ymgynghoriad SRoC, gan fanteisio ar y cyfle i wrthbrofi adroddiadau anghywir ar y mater olaf. Ategwyd hyn ymhellach trwy sgwrsio â'r sector amaethyddol yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd.
62. Parhaodd ein cysylltiad ag aelodau o Grŵp Cyswllt Cyfathrebu Sychder i gydlynu ein negeseuon wrth i Gymru symud o sychder i statws adferiad sychder, gydol y cyfnod hwn.
63. Parhaodd ceisiadau'r cyfryngau am faterion creu coetir, ansawdd dŵr a risg llifogydd a achosir gan yr hinsawdd. Buom yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canlyniadau dŵr ymdrochi a sut y byddem yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r methiant ym Marine Lake y Rhyl. Hefyd, cefnogwyd canlyniadau adroddiad Archwilio Cymru, 'Darlun o Reoli Perygl Llifogydd', yn ogystal â'n Hadroddiad Rheoleiddio Blynyddol ein hunain.
64. Llwyddodd ein gwaith cyfathrebu rhagweithiol ar y Prosiect Maelgi ac ar gynnwys Ynys Llandwyn yn y rhestr gyntaf o 100 Safle Treftadaeth Ddaearegol i ddenu sylw'r cyfryngau darlledu hefyd. Roedd ein hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol dros y Nadolig eleni yn canolbwyntio ar 'Anrhegion i'r Blaned'.

### Gwefan CNC

65. Blaenoriaeth ddiweddar oedd gwella'r ceisiadau dyddiol am ddiweddariadau ar wefan CNC. Gwelsom gydweithio gwych rhwng adrannau CNC a chymorth gan gyflenwyr allanol arbenigol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o bwrpas gwefan CNC (a'r hyn nad yw ar ei gyfer) ac adolygu prosesau ar gyfer creu a chyhoeddi cynnwys y we. Bydd y Tîm Digidol yn parhau i ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth a chynyddu hyfforddiant dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn 2023.
66. Mae'r tîm yn parhau i ddatblygu tystiolaeth am ein defnyddwyr - o'r rhesymau pam mae cwsmeriaid yn cysylltu â'n Hwb Cwsmeriaid, dadansoddeg y wefan, sut mae pobl yn llenwi ffurflenni ar-lein, a thrwy drafodaeth fanwl gyda defnyddwyr gwasanaeth allanol. Gwnaeth y tîm gyflwyniad gwych yn y Gynhadledd Dystiolaeth ar "sut rydym yn defnyddio tystiolaeth i wella gwasanaethau".

## Materion Mewnol

### Dulliau gweithio

67. Aeth y Polisi Dulliau Gweithio newydd yn fyw ar 8 Rhagfyr. Datblygwyd y polisi gyda chyfraniad gan reolwyr, undebau llafur a staff.
68. Wedi inni newid ffyrdd o weithio o ganlyniad i'r pandemig, bu manteision i staff a'r sefydliad, yn enwedig o safbwynt datgarboneiddio. Pwrpas y polisi yw helpu rheolwyr i ddiffinio lefel presenoldeb o ran amser a/neu leoliad ar gyfer darparu gwasanaethau. Bydd hyn wedyn yn pennu lefel yr hyblygrwydd sydd ar gael ar gyfer pob aelod o staff yn ei rôl.
69. Mae gweithio ystywyth yn drefniant gwirfoddol ac anffurfiol ac rydym wedi gofyn i staff gwblhau Cynllun Dulliau Gweithio erbyn 31 Mawrth i'w ystyried gan eu rheolwr llinell.

### Ein Llais / Our Voice

70. Ym mis Chwefror, byddwn yn gwahodd ein cydweithwyr i gymryd rhan yn Ein Llais / Our Voice, arolwg i'n helpu ni i ddeall profiad y gweithiwr yn ein sefydliad. Bydd yn ddechrau rhaglen ymgysylltu strwythuredig sy'n cynnwys ein cyflenwr allanol, People Insight, a fydd yn rhoi awgrymiadau i lywio ein datblygiad o safbwynt ein staff.
71. Bydd y canlyniadau'n darparu llinell sylfaen a thystiolaeth glir y gallwn eu defnyddio i ddeall y profiad o weithio yma, yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gallwn ei wneud yn well. Rydym wedi datblygu proses ôl-arolwg i flaenoriaethu materion, cynnal ymgysylltiad pellach i ddeall achosion sylfaenol, ac adborth y canfyddiadau – ac yna arolygon pellach i wirio'r cynnydd dros y pedair blynedd nesaf.
72. Bydd y dull strwythuredig hwn o wrando ar ein staff ac, yn bwysicach, gweithredu ar y canlyniadau, yn ein helpu i ddod yn sefydliad y mae angen i ni fod er mwyn cyflawni yn erbyn uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol nesaf.

### Ailardystio ISO 45001

73. Mae System Rheoli Amgylcheddol CNC wedi'i hardystio i safon ISO 45001 ac yn sicrhau ein bod yn rheoli effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd yn effeithiol.

Mae'r cylch archwilio allanol, a oruchwylir gan BSI, yn digwydd dros dair blynedd ac yn cwmpasu holl safleoedd CNC a bron pob agwedd ar ein gwaith.

74. Dechreuodd y broses ail-ardystio ym mis Hydref a gorffen ddechrau Rhagfyr, gyda deuddeg diwrnod o archwilio'n ymwneud â thimau a safleoedd gwahanol ledled Cymru. Yn dilyn yr archwiliad, dyfarnwyd ailardystiad llwyddiannus i CNC i safon ISO 45001: 2018. Cafodd mân achosion o ddiffyg cydymffurfio blaenorol eu hasesu a'u cau, ar wahân i un yn ymwneud â hyfforddiant a dysgu a datblygu. Nodwyd tri mân achos newydd o ddiffyg cydymffurfio, yn ymwneud â gweithio ar uchder, rheoli sŵn yn y gwaith ac asesiad risg safleoedd.

### **Rhaglen Gweledigaeth ar gyfer Llywodraethu Da (VfGG)**

75. Dyma un o sawl rhaglen sy'n ffurfio'r portffolio Trawsnewid Busnes. Mae'r rhaglen wedi ei chwmpasu'n llawn erbyn hyn, gyda rhywfaint o waith eisoes ar droed. Rydym yn aros am gadarnhad o'r adnodd sydd ei angen i gyflawni'r gweddill o ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.
76. Mae VfGG yn rhaglen trawsnewid strategol, lefel uchel. Ei gweledigaeth yw CNC lle mae llywodraethu'n addas i'r diben, yn ychwanegu gwerth, ac yn helpu'r sefydliad i gyflawni gan gynnwys cyflawni ei bwrpas. Yn ogystal, ei nod yw sicrhau bod gennym Fodel Gweithredu Llywodraethu sy'n bodloni anghenion cydymffurfio a sicrwydd ac yn bodloni safonau ymarfer da, ond gan barhau'n gymesur a deinamig. Os caiff ei gyflawni'n llwyddiannus, bydd y gwaith yn arwain at newid sylweddol mewn llywodraethu a gaiff effaith gadarnhaol ar draws y sefydliad.
77. Mae pum ffrwd waith yn rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd, a fydd yn cymryd tair blynedd i'w cyflawni. Mae'r ffrydiau gwaith yn cwmpasu strwythurau a phrosesau llywodraethu, model a phecyn cymorth gweithredu llywodraethu, diwylliant a chydymffurfio, gwneud penderfyniadau ar sail risg, a datblygu amgylchedd rheolaethau mewnol a sicrwydd.
78. Mae angen cyflawni rhai o'r ffrydiau gwaith cyn eraill. Mae'r flaenoriaeth uniongyrchol yn ymwneud â ffrwd waith un a sicrhau bod gennym strwythurau llywodraethu addas i'r diben ar waith er mwyn helpu i gyflawni'r Cynllun Llywodraethu'n llwyddiannus o fis Ebrill ymlaen. Rydym yn gweithio gyda'n partner strategol, Deloitte, i archwilio terfynau'r strwythur llywodraethu presennol a'r opsiynau ar gyfer newid. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau cysylltiad clir rhwng y strwythurau llywodraethu a chyflawni'r tri amcan llesiant.
79. Bydd aelodau'r Pwyllgor Pobl, Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid (PCSC) yn derbyn mwy o fanylion am y gwaith hwn dros y misoedd nesaf. Bydd cynnydd yn erbyn y rhaglen VfGG yn cael ei adrodd i ARAC wrth iddi fynd rhagddi.

### **Adolygiadau o Effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r Bwrdd**

80. Rydym wedi penderfynu gohirio'r adolygiadau allanol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r Bwrdd tan yn ddiweddarach eleni er mwyn rhoi cyfle i aelodau newydd y Bwrdd, a gaiff eu penodi'r mis hwn, gymryd rhan. Hefyd, rydym yn awyddus i glywed syniadau, barn a phrofiad aelodau'r Bwrdd a fydd yn rhoi'r gorau i'r gwaith eleni ac felly'n archwilio ffyrdd o hwyluso eu cyfraniad, rhag ofn i'r adolygiadau allanol ddigwydd ar ôl eu dyddiadau gadael.



## Rhaglen Adolygu Teilwredig Llywodraeth Cymru

81. Yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn 2019, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi rhaglen newydd o Adolygiadau Teilwredig ar waith er mwyn sicrhau sicrwydd rheolaidd a her i effeithiolrwydd, arferion llywodraethu da a'r angen parhaus am Gyrrff Cyhoeddus Cymru.
82. Mae Adolygiad Teilwredig yn ffrwyth cydweithrediad rhwng Cyrff Cyhoeddus Cymru (Swyddogion Gweithredol a'r Bwrdd), ei dîm Nawdd yn Llywodraeth Cymru, a thîm Adolygiadau Teilwredig yr Uned Cyrff Cyhoeddus. Bydd cam cyntaf y rhaglen yn canolbwyntio ar gytuno ar adolygiadau thematig ac ambell adolygiad unigol o Gyrrff Cyhoeddus Cymru fel sy'n ymarferol o fewn yr adnoddau a'r gyllideb, wrth gryfhau rhywfaint o'r broses, hynny yw penodi panel adolygu. Mae angen ystyried a chytuno ar yr ail gam fel rhan o'r cam cyntaf i sicrhau y bydd pob corff cyhoeddus yn cael ei adolygu erbyn 2031.
83. O ran cwmpas, mae Cyrff Cyhoeddus Cymru i gyd yn Gyrrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, wedi'u dosbarthu'n Adrannau Anweinidogol (NMDs), Asiantaethau Gweithredol (EAs), Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSBs), a chwmnïau sy'n eiddo i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Datblygwyd Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg i fesur y risg gynhenid a risg weddilliol corff cyhoeddus ac mae'r Tîm Llywodraethu a Risg yn CNC wedi bod cyfrannu at y broses ddatblygu a'r ymgynghoriad dilynol.
84. Bydd sgôr yr Adnodd Defnyddiol i Asesu Risg, ynghyd â thrafodaethau gyda'r cyrrff cyhoeddus a'r timau noddi, yn llywio rhaglen Adolygiad Teilwredig ar gyfer Cyrff Hyd Braich ar gyfer 2023-2026, yn ogystal â hysbysu ail gam y rhaglen rhwng 2026 a 2031. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd y rhaglen yn cael ei hadolygu'n flynyddol gyda thimau partneriaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'r risgiau newidiol sy'n wynebu Cyrff Cyhoeddus Cymru fel y tystia'r sgoriau HART a gyflwynir.
85. Cawsom wybod y bydd CNC yn rhan o'r ail gam, felly ni fyddwn yn destun adolygiad tan 2026 ar y cynharaf. Mae sesiwn frifio fanylach ar gael gan Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Pennaeth Llywodraethu ar gais.

## Rhagolwg

Dydd Mawrth 7 Chwefror – Y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Dydd Iau 9 Chwefror – Craffu Blynyddol y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar Berfformiad CNC

Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar Ansawdd Dŵr

Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Mercher 15 Chwefror – Galwad Ddiweddar'u'r Bwrdd

Dydd Iau 16 a dydd Gwener 17 Chwefror – Sesiwn Ymsefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd

Dydd Mawrth 21 Chwefror – Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth

Dydd Iau 2 Mawrth – Y Pwyllgor Pobl a Chyflogau

Dydd Mawrth 7 Mawrth – Y Pwyllgor Cyllid

Dydd Iau 9 Mawrth - Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Dydd Mercher 22 a Dydd Iau 23 Mawrth – Cyfarfod Bwrdd CNC

Dydd Mawrth 6 Mehefin – Digwyddiad y Senedd: Lansio'r Cynllun Corfforaethol





# Diweddariad ysgrifenedig ar gyfer Cyfarfod Bwrdd CNC Ionawr 2023

Teitl:	Diweddariad ysgrifenedig y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC)
Cyfeirnod:	23-01-B08
Adolygwyd y diweddariad gan:	Karen Balmer – Cadeirydd Dros Dro ARAC
Cyflwynir y diweddariad gan:	Karen Balmer – Cadeirydd Dros Dro ARAC
Diben y diweddariad:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

## Mater

1. Mae'r diweddariad ysgrifenedig hwn ar gyfer y Bwrdd yn ymwneud â chyfarfod ARAC ar 15 Rhagfyr 2022.

## Diweddariad

### Archwilio Cymru

2. Roedd Archwilio Cymru wedi darparu diweddariad ysgrifenedig, a oedd yn cynnwys dolenni i'r adroddiadau niferus yr oedd Archwilio Cymru wedi'u paratoi a allai fod o ddiddordeb i CNC. Nododd Archwilio fod cyfrifon 2021-22 wedi'u cymeradwyo yn amodol ar y Llythyr Rheoli ers cyfarfod diwethaf ARAC ym mis Medi.
3. Byddai Archwilio Cymru yn cyflwyno ei Adroddiad Dysgu o Seiberymosodiadau mewn cyfarfod eithriadol o ARAC ar 13 Ionawr.

### Diweddariad ar Gyllid

4. Darparwyd diweddariad i ARAC a oedd yn cynnwys: gweithredu meddalwedd newydd; colledion, taliadau arbennig a chamau tendr unigol; a gwersi a ddysgwyd o System Reoli Gwybodaeth Labordai (LIMS).

### Diweddariad ar Archwilio Mewnol

5. Cyflwynwyd sawl adroddiad archwilio mewnol ac un adroddiad dilynol i ARAC. Roedd ARAC wedi gweld cynlluniau archwilio mewnol drafft 2022-23 a 2023-24 hefyd, a gymeradwywyd.

### Sicrhau Rheolaeth Her Arweinyddiaeth

6. Yn dilyn cyfarfod ARAC ym mis Medi, bu'r Tîm Gweithredol yn trafod materion yn ymwneud â phrosiect LIMS a oedd yn cynnwys y lefel o arweinyddiaeth dechnegol, rheoli prosiect a chontractau a chydymffurfiaeth.

7. Roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud a oedd yn cynnwys y gweithdrefnau rheoli prosiect a'r cymorth ychwanegol i'w ddarparu ar gyfer contractau mawr. Codwyd ymwybyddiaeth am y sicrwydd ail linell ers cyfarfod ARAC ym mis Medi.
8. Er bod y Pwyllgor wedi cael mwy o sicrwydd yn dilyn y drafodaeth, roeddynt yn dal i bryderu sut y byddai cynnydd yn cael ei nodi gyda'r newidiadau a argymhellwyd. Cytunwyd bod angen mwy o fanylion a fyddai'n cynnwys sut y byddai'r dysgu hwn yn cysylltu â'r Cynllun Corfforaethol, a sut i fonitro cynnydd.

#### Diweddariad ar Reoli Risg

9. Darparwyd diweddariad chwarterol ar reoli risg i ARAC. Roedd y drafodaeth yn cynnwys yr anhawster i recriwtio a risg prinder sgiliau. Byddai archwiliad dwfn o Risg Strategol 07 (Cydymffurfiaeth) yn cael ei gwblhau yng nghyfarfod ARAC ym mis Mawrth..



# Papur Bwrdd

Teitl y Papur:	Diweddariad y Pwyllgor Cyllid
Cyfeirnod y Papur:	23-01-B09
Noddir y Papur gan:	Syr David Henshaw – Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cyflwynir y Papur gan:	Syr David Henshaw

Diben y Papur:	Gwybodaeth
Argymhelliad:	Nodi'r diweddariad

## Mater

1. Mae'r papur hwn yn darparu diweddariad i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023.

## Diweddariad

### Diweddariad Cyllid

2. Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer 2022-23.
3. Bu'r Pwyllgor yn trafod ac yn cadarnhau'r cymeradwyaethau cyllid ar gyfer: Rhaglen Adfer Afon Gwy Uchaf; Rhaglen Natur am Byth; Cynllun Rheoli Llifogydd Rhydaman; Fframwaith Mân Waith a Chynnal a Chadw Asedau Afonydd; Prydlesu rhannau o Ystad Goed Llywodraeth Cymru ar gyfer mastiau Telathrebu (WGWE); a'r Diwygiadau Rheoli ein Harian.
4. Byddai Cynllun Rheoli Llifogydd Rhydaman yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd hefyd cyn cyfarfod Bwrdd mis Ionawr.

### Diweddariad Cynllunio Busnes

5. Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb ar gyfer 2023-24 a bu'n trafod nifer o feysydd, megis: trwyddedu morol; incwm pren; costau economaidd llawn a seilwaith yr Ystad Goed.
6. Byddai diweddariad pellach ar faterion Incwm Pren a'r Seilos Cyllid yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid am ddiweddariad a thrafodaeth bellach.

### Cyflwyniad Diweddariad Cynllunio Corfforaethol

7. Cafodd aelodau'r pwyllgor eu diweddarau ar sefyllfa bresennol y Cynllun Corfforaethol newydd. Gwnaethant drafod lefel yr uchelgais a oedd wedi'i hamlinellu yn y Cynllun a'r ffaith y byddai'r Cynllun Busnes Blynyddol yn pennu'r gwaith a fyddai'n cael ei wneud bob blwyddyn. Bu'r Pwyllgor yn trafod y canlyniadau ar gyfer pob Amcan Lles hefyd a gofynnwyd i'r Grŵp Tîm Arwain ystyried beth allai'r metrigau a'r cerrig milltir fod i fframio'r canlyniadau ar gyfer 2030.

### Diweddariad Trawsnewid Busnes

8. Cafwyd diweddariad ar y gwaith Trawsnewid Busnes a'r portffolios a oedd wedi bod yn symud ymlaen drwy'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO). Cafwyd diweddariad ar y cyflwyniad Buddsoddi i Arbed i Lywodraeth Cymru hefyd.
9. Bu'r Pwyllgor yn trafod blaenoriaethu adnoddau a'r cyllid a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith Trawsnewid Busnes, a chytunwyd bod y gwaith hwn yn flaenoriaeth. Roedd cofrestr effeithlonrwydd yn cael ei datblygu a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Tîm Gweithredol i'w hadolygu, a fyddai'n helpu i nodi esiamplau o drawsnewid.

### Diweddariad y Swyddfa Rheoli Rhaglenni (PMO) a'r Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau (CMSS)

10. Cyflwynwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y PMO, ei dangosfwrdd sicrwydd a statws presennol y prosiect. Cyflwynwyd adnoddau cyflawnadwy eraill y PMO hefyd, megis cymorth fframwaith a chymorth prosiect. Byddai hyfforddiant rheoli prosiectau a rhaglenni nawr bod fframwaith datblygu technegol wedi'i weithredu.
11. Cafodd aelodau'r pwyllgor eu diweddarau ar y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau (CMSS) a'r swyddi y recriwtiwyd iddynt. Cyflwynwyd y cynllun pontio i symud i fusnes fel arfer ac roedd y tîm wedi bod yn ymgysylltu drwy wahanol fecanweithiau cyfathrebu yn rheolaidd. Cyflwynwyd yr adborth a'r ystadegau o'r sesiwn ymwybyddiaeth hefyd; y ffocws presennol; a'r camau nesaf.

### Cyflwyniad ar y Diweddariad Caffael a Chontractau (Fframwaith Cyllid)

12. Darparwyd diweddariad ar strwythur y Fframwaith Cyllid a'r gwahanol fecanweithiau a oedd yn rhan o'r broses. Cyflwynwyd y dull a ddefnyddiwyd, goblygiadau ariannol, risgiau allweddol ac argymhellion hefyd. Bu'r Pwyllgor yn trafod yr argymhellion sydd ar waith, gan gynnwys rôl y Pennaeth Caffael a Chontractau y recriwtir iddi.

### UNRHYW FATER ARALL

13. Nododd y Pwyllgor yr Effaith ar y Gadwyn Gyflenwi o ganlyniad i'r papur Amodau Economaidd Presennol. Nodwyd yr Adroddiadau Archwilio canlynol hefyd a ddarparwyd er gwybodaeth: Archwiliad Mewnol o Gyfrifon sy'n Daladwy; Archwiliad Mewnol o Femorandwm o Gytundeb; ac Adroddiad Archwilio Mewnol Cronfa Ddata Is-adran WGWE.

## Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y Cyfarfod:	27 Ionawr 2023
Teitl y papur:	<b>Diweddariad Fforwm Rheoli Tir Cymru</b>
Cyfeirnod y Papur:	23-01-B10
Noddir y Papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Paratowyd y Papur gan:	Bronwen Martin, Cynghorydd Arbenigol: Rheolaeth Tir Cymru
Cyflwynir y Papur gan:	Zoe Henderson, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru
Diben y Papur	Gwybodaeth

## Fforwm Rheoli Tir Cymru

1. Cynhelir cyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm) bedair gwaith y flwyddyn, sy'n rhoi cyfle i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, nodi diddordebau cyffredin a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ar faterion rheoli tir strategol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Fforwm Rheoli Tir Cymru](#)

## Diweddariad

### Cyfarfod 5 Rhagfyr 2022

2. Cynhaliwyd cyfarfod diweddara'r Fforwm ar 5 Rhagfyr 2022.
3. Rhoddodd Dr Richard Kipling (Sustainable Food Trust) gyflwyniad am y Metrig Fferm Byd-eang a'r fframwaith diwygiedig. Fframwaith cyffredin i ddiffinio cynaliadwyedd ar y fferm a mesur effeithiau fferm gyfan yw'r Metrig Fferm Byd-eang.
4. Rhoddodd Marianne Fisher (Cyngor Sir Fynwy) gyflwyniad am brosiect Living Land Management Wales. Mae'r prosiect wedi'i leoli'n Sir Fynwy ac yn defnyddio mapiau lloerennau, data economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, a modelu cyfrifiadurol i fynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol 'Sut ddylen ni ddefnyddio ein tir nawr ac yn y dyfodol?'.

5. Bu Nick Thomas, Joel Rees-Jones a Jennifer Day (CNC) yn trafod cydweithio â pherchnogion tir i wella cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Cyflwynodd Joel a Jennifer astudiaethau achos a lwyddodd i ddangos cydweithio gyda ffermwyr a rheolwyr tir.
6. Atgoffwyd yr aelodau o'r cyfle i roi adborth ar ddatblygiad Cynllun Corfforaethol newydd CNC.
7. Cafodd holl aelodau'r Fforwm gyfle i holi am Ddiweddariadau CNC a rhannu diweddariadau gan eu sefydliadau eu hunain hefyd.
8. Cynhelir cyfarfod nesa'r Fforwm ym mis Mawrth 2023 – y dyddiad i'w gadarnhau maes o law.
9. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan yr aelodau, byddant yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Fforwm ar wefan CNC.

## Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

10. Prif bwrpas yr Is-grŵp hwn yw nodi cyfleoedd i ddileu llygredd amaethyddol yng Nghymru wrth gynnal sector ffermio ffyniannus yn dilyn pum thema allweddol (cyngor a chanllawiau, dull gwirfoddol, rheoleiddio, arloesi a buddsoddi), a gweithio ar y cyd â phob math o randdeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol.

[Cyfoeth Naturiol Cymru - Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol](#)

## Diweddariadau

### Cyfarfod 21 Tachwedd 2022

11. Roedd y cyfarfod hwn yn cynnwys cyflwyniad am brosiect Pedair Afon LIFE. Cyflwynwyd y prosiect gan Chris Thomas (CNC), gyda throsolwg o'r nodau a'r amcanion.
12. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru barhau â'u cyfres o gyflwyniadau am amonia drwy drafod effeithiau amgylcheddol amonia yng Nghymru ynghyd â thrafodaeth ar dechnolegau newydd yn cynnwys triniaethau slyri.
13. Rhoddodd Sue Ginley (CNC) ddiweddariad byr ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd CNC.
14. Rhoddodd Dr Sue Byrne a Dr Morag Taite (CNC) gyflwyniad rhagarweiniol am Wyddoniaeth y Dinesydd gan gyfeirio'n benodol at ddull CNC o ymdrin â Gwyddoniaeth y Dinesydd.

### Cyfarfod 12 Rhagfyr 2022

15. Rhoddodd Geraint Hughes, (Lafan Consulting) gyflwyniad dilynol i rannu casgliadau gan brosiect Partneriaeth Arloesedd Ewrop (EIP) ar dechnoleg cwmpasu'r rhyngwryd

pethau (IoT) i wneud penderfyniadau gwell ar wasgaru slyri, sydd bellach yn ei gam olaf. Cyflwynodd Geraint 'y Rhyngwyd Pethau' nôl ym mis Chwefror 2022 gan ddychwelyd i roi rhai o gasgliadau'r prosiect.

16. Rhoddodd Nigel Elgar (Dŵr Cymru) drosolwg a diweddariad am waith Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog ar y cyd â Grŵp Dŵr y Bannau. Ymunodd dau o ffermwyr Grŵp Dŵr y Bannau â'r cyfarfod hefyd i gefnogi'r drafodaeth.
17. Mae cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 23 Awst 2023.
18. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan aelodau, fe'u cyhoeddir ar dudalen Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar wefan CNC.



## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2023
<b>Teitl y papur:</b>	Fforwm Pysgodfeydd Cymru
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B11
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Ben Wilson, Prif Gynghorydd, Pysgodfeydd; Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Tîm Rheoli Adnoddau Naturiol
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd
<b>Diben y Papur</b>	Gwybodaeth

### Cefndir

- Mae Fforwm Pysgodfeydd Cymru yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn rhoi cyfle i randdeiliaid pysgodfeydd a Sefydliadau Anllywodraethol rannu tystiolaeth a chyfluoedd i gydweithio er mwyn cyflawni'r gwaith o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy yng Nghymru.
- Cylch gwaith y grŵp yw:
  - Cynrychioli'r ystod o randdeiliaid sydd â diddordeb ym mhysgod dŵr croyw a mudol Cymru am eu gwerth cadwraeth ac adnodd pysgodfeydd. Mae'r aelodau'n gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd mudol a dŵr croyw yng Nghymru.
  - Darparu cyngor strategol i CNC, sy'n adlewyrchu barn buddiannau pysgodfeydd.
  - Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru (LIC) am gyngor CNC, gan gynnwys datblygu polisiâu a strategaethau sy'n gysylltiedig â physgodfeydd.
  - Adolygu perfformiad pysgodfeydd a gwaith cysylltiedig CNC i sicrhau bod gan bysgotwyr a buddiannau pysgodfeydd wybodaeth ddigon clir bod incwm trwyddedau gwialen a chyllid arall yn cael ei defnyddio yn y ffordd orau i gefnogi'r gwaith o gyflawni dyletswydd pysgodfeydd statudol CNC.

- e. Ystyried effaith ecolegol, fiolegol ac economaidd materion sy'n datblygu a rhai newydd sy'n effeithio ar ein pysgodfeydd.
- f. Helpu i ledaenu gwybodaeth gan CNC ac eraill er budd pysgota a physgodfeydd.
- g. Rhoi adborth clir gan fuddiannau pysgota a physgodfeydd i CNC a hwyluso'r broses o ddarparu gwybodaeth i'r buddiannau hynny.
- h. Nodi cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a chyllid newydd.
- i. Cefnogi gwaith sganio'r gorwel ar gyfer datblygiadau, cyfleoedd, a risgiau newydd disgwylidig, a chodi ymwybyddiaeth o faterion ehangach yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd dŵr croyw a mudol, er enghraifft pysgodfeydd morol.

## Diweddariad

- 3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithiol ar 27 Medi.
- 4. Cafodd trosolwg a diweddariad ar gynnydd Cynllun Corfforaethol CNC ei ddarparu a chafodd yr aelodau wybod am gyfle sydd ar y gweill i roi adborth a sylwadau drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- 5. Cafwyd diweddariad ar ansawdd dŵr, gan gynnwys hyd a lled y mesurau sy'n cael eu datblygu er mwyn deall a gwella ansawdd dŵr yn well yn afonydd Cymru, gan ganolbwyntio'n arbennig ar afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Prosiect y Fferm Laeth, a rheoliadau Llygredd Amaethyddol.
- 6. Darparwyd trosolwg o gynlluniau Grant Creu Coetir Llywodraeth Cymru, yn enwedig y cyfleoedd i greu coetiroedd torlannol er budd cynefin ac ecosystemau afonydd. Hefyd, cafwyd sesiwn frifio ar broses gymeradwyo'r grant a sut y cafodd effeithiau amgylcheddol posib eu nodi a'u trin. Un canlyniad oedd i CNC a Llywodraeth Cymru weithio gydag Afonydd Cymru i ystyried dulliau o gefnogi mwy o blannu coetir torlannol.
- 7. Tywydd sych hirfaith – cafwyd crynodeb o effeithiau tebygol ac a welwyd o'r tywydd sych a chynnes iawn diweddar. Cafwyd trafodaeth ar sut y gallai cyfyngu'n wirfoddol ar bysgota helpu i leihau effeithiau ar stociau pysgod. Roedd yna gam gweithredu i CNC ddatblygu protocolau/cyngor a chyfathrebu cadarn ymhellach ar gyfer senarios tywydd cynnes, er mwyn helpu i sicrhau dull gwirfoddol cyson yn y dyfodol.
- 8. Derbyniodd y grŵp ddiweddariadau gan:
  - a. Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar lygredd amaethyddol.
  - b. Y Fforwm Dŵr.
- 9. Cafwyd diweddariad cyffredinol ar faterion pysgodfeydd, gan gynnwys y newidiadau i ddyletswyddau a gwerthiant trwyddedau pysgota â gwialen. Arweiniodd hyn at drafodaeth ar yr angen i roi tystiolaeth gliriach ar yr hyn a gafodd pysgotwyr am eu ffioedd trwyddedau pysgota â gwialen.

10. Roedd diweddariad ar ganlyniad ac argymhellion y Grŵp Cynghori ar Adar Sy'n Bwyta Pysgod (a gadeirir gan Steve Ormerod) a'r cynigion a gyflwynwyd i Fwrdd CNC fel rhan o gynllun gweithredu.
11. Darparwyd diweddariad pellach ar y cynnig i ddiwygio methodoleg asesu stoc eogiaid, gydag ymrwymiad i ddod â diweddariad manylach yn 2023.
12. Roedd y Materion Eraill a godwyd yn y sesiwn yn cynnwys:
  - a. Adroddiad Game and Wildlife Conservation Trust (GWCT) ar y Ffair Helgig Genedlaethol a gynhaliwyd ar Stad y Faenol.
  - b. Hefyd, cadarnhaodd GWCT y byddai gwaith celf 'Salmon School' y Missing Salmon Alliance yn cael ei arddangos yn y Senedd.
  - c. Uwchgynhadledd Sewin ac Eogiaid - cafwyd diweddariad yn amlinellu bod Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cefnogi hyrwyddwyr rhywogaethau'r Senedd dros Eogiaid (Huw Irranca-Davies AS) a Sewin (Cefin Campbell AS) i gynnal gweithdy i ystyried camau gweithredu i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn stociau eog a sewin. Darperir diweddariad am hyn yng nghyfarfod nesa'r Fforwm.
13. Mae cyfarfod nesa'r Fforwm wedi'i drefnu ar gyfer 31 Ionawr. Mae'r rhagolwg ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:
  - a. Mynediad at ddŵr ar gyfer pysgota a dibenion hamdden eraill – cynnydd ar gynigion gan Is-grŵp Mynediad i Ddŵr Fforwm Mynediad Cymru.
  - b. Diweddariad Dŵr Cymru ar Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd (gwanwyn).
  - c. Adroddiad ar y risgiau genetig sy'n wynebu poblogaethau eogiaid bach.
  - d. Adroddiad gan ddigwyddiad hyrwyddwyr rhywogaethau Sewin ac Eog
14. Mae nodiadau cyfarfod ar gael ar gais ac yn cael eu dosbarthu i aelodau'r grwpiau pysgodfeydd lleol.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF)
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B12
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd WWMF
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Ceri Jones, Prif Gyngorydd Arbenigol: Rheoli Dalgylchoedd
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Yr Athro Steve Ormerod, Cadeirydd WWMF
<b>Diben y Papur:</b>	Gwybodaeth

### Cefndir

1. Mae Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (WWMF) yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn gyfle i sefydliadau sy'n aelodau ohono rannu tystiolaeth a chyfleoedd i gydweithio er mwyn rheoli dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru – o'r ffynhonnell i'r môr. Yn ogystal â thrafodaeth barhaus ar faterion rheoleiddio a pherfformiad – er enghraifft, mewn perthynas â Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 – mae agweddau ehangach ansawdd dŵr, llywodraethu dŵr ac adnoddau dŵr yng Nghymru a gorllewin Lloegr wedi bod yn themâu allweddol.
2. Mae WWMF yn archwilio cyfleoedd hefyd i ddatblygu, cefnogi a chyfathrebu negeseuon ac argymhellion a rennir ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy'n fwy cyffredinol ochr yn ochr â Fforwm Rheoli Tir Cymru, Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG).

### Diweddariad

3. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn rhithwir ar 19 Hydref 2022, yn cynnwys trafodaeth agored ar faterion sy'n berthnasol i'r fforwm, diweddariadau aelodau a thrafodaeth ar y papur 'Diweddarau' a baratoir gan CNC cyn pob cyfarfod. Roedd y pwyntiau canolog yn cynnwys diwygiadau i Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yr Undeb Ewropeaidd, ymchwil cemegion/deunyddiau fferyllol, rheolau ffermio ar gyfer dŵr yn Lloegr, Cyngor Defnyddwyr Dŵr, 'Marc Dŵr 2022', gwastraff gwely cyrs yn Lloegr mewn cynlluniau adfer pyllau glo, Water Resources West, diweddariad ar sychder yng Nghymru a Rhaglen Cyfalaf Dŵr CNC.

4. Ymunodd Sue Ginley, Cyngorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio a Llywodraethu Perfformiad (CNC) â'r cyfarfod i roi trosolwg a diweddariad ar y cynnydd gyda Chynllun Corfforaethol CNC. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yna gyfle i ddod i roi adborth a sylwadau.
5. Rhoddodd Mark Charlesworth, Arweinydd Tîm, Cynllunio Dŵr Integredig (CNC), gyflwyniad ar y dosbarthiad diweddaraf o gyrff dŵr o dan y Rheoliadau Amgylchedd Dŵr 2017. Mae'r holl ddata dosbarthu ar gael i'w lawrlwytho ar Arsylwi Dyfroedd Cymru a bydd yna raglen Power Business Intelligence newydd a fydd yn galluogi mynediad hawdd at ddata dosbarthu a mapiau GIS y gellir eu lawrlwytho.
6. Rhoddwyd cyflwyniad ar y Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff gan Alison Edwards o Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu eu dull. Caeodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhain ar 7 Hydref 2022 ac mae DCWW yn bwriadu llunio datganiad o ymateb. Cyfrannodd Hafren Dyfrdwy at y drafodaeth gan ddweud eu bod yn ystyried dull seiliedig ar ddalgyrch ar gyfer y Cynlluniau Rheoli, yn arbennig wrth edrych ar y Drenewydd a'r Trallwng.
7. Roedd Unrhyw Fater Arall yn y sesiwn yn cynnwys diweddariad cryno ar argymhellion yr Archwiliad Dwfn o Fioamrywiaeth gyda chynllun gweithredu i rannu'r papur â WWMF. Ymunodd Sue Hearn, Arweinydd Tîm, Rheoli Ecosystemau a Physgodfeydd Dŵr Croyw i rannu gwybodaeth am Gynlluniau Rheoli Craidd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a oedd newydd eu diweddarau a'u cyhoeddi. Mae CNC wedi diwygio'r targedau ansawdd dŵr ar gyfer yr holl gyrff dŵr o fewn naw afon yr ACA: Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Wysg a Gwy. Mae Cynlluniau Rheoli Craidd ACA yn amlinellu gweledigaeth a nodweddion y safle a beth sydd ei angen i ddod â'r nodweddion i gyflwr ffafriol.
8. Yn olaf, trafododd y fforwm drefnu ymweliad safle rhwng sesiynau WWMF. Gan fod sesiynau'n cael eu cynnal yn rhithwir, sef dymuniad aelodau'r fforwm, teimlwyd y byddai'n fuddiol ategu'r sesiynau mwy ffurfiol gydag ymweliad safle wyneb yn wyneb. Mae CNC yn ystyried lleoliadau addas a fydd yn cael eu trefnu ar gyfer y Gwanwyn.
9. Cynhelir cyfarfod nesaf WWMF ddydd Iau 16 Mawrth 2023. Mae'r rhagolwg ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:
  - a) Deunyddiau fferyllol
  - b) Tueddiadau dŵr daear
  - c) Tystiolaeth yn cynnwys data – yn integreiddio dulliau amrywiol fel gwyddor dinasyddion
  - d) Dyfroedd Ymdrochi Mewndirol
  - e) Gwersi Sychder a ddysgwyd
10. Mae nodiadau'r cyfarfod yn cael eu darparu ar dudalen WWMF gwefan CNC.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru (NAFW)
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B13
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Geraint Davies, Cadeirydd NAFW
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Carys Drew, Ysgrifenyddiaeth NAFW (Cyngorydd Arbenigol: Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW) a Rhwydweithiau
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Geraint Davies, Cadeirydd NAFW
<b>Diben y Papur:</b>	Gwybodaeth

### Cefndir

- Fforwm anstatudol yw'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru sy'n dwyn ynghyd randdeiliaid o sefydliadau'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector gyda diddordeb ac arbenigedd mewn mynediad a hamdden awyr agored yng Nghymru.
- Prif ddibenion NAFW:
  - Helpu i wella ansawdd a graddau mynediad i gefn gwlad ac arfordir Cymru, ac ehangu'r cyfleoedd i fwynhau a hamdden awyr agored cyfrifol i bawb, mewn perthynas â chynaliadwyedd ac addysg amgylcheddol;
  - Cydweithio fel rhwydwaith rhanddeiliaid, meithrin dealltwriaeth, a rhannu gwybodaeth ac arferion da; cefnogi'r gwaith o wireddu manteision hamdden a mynediad awyr agored yng Nghymru.
  - Cefnogi CNC yn ei nod o gael mwy o bobl i gymryd rhan mewn, ac elwa ar, hamdden awyr agored yn amlach.
- CNC sy'n darparu'r Cadeirydd (Geraint Davies) a'r Ysgrifenyddiaeth (Carys Drew), yr aelodau sy'n enwebu'r Is-gadeirydd (Ruth Rourke, Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad). Mae Dr Rosie Plummer, Bwrdd CNC, yn cynorthwyo a mynychu cyfarfodydd hefyd.
- Mae NAFW yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd y Fforwm yn agored i arsyllwyr ac yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ond nid ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus. Pan fo angen, gall y Cadeirydd sefydlu gweithgorau i ystyried materion penodol ac i

adrodd i gyfarfodydd dilynol, ni fydd cyfarfodydd gweithgorau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. Nid oes unrhyw weithgor yn weithredol ar hyn o bryd.

5. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn coladu cyfraniadau ysgrifenedig cyn pob cyfarfod, sy'n gyfle i'r aelodau, CNC a Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth fanwl. Mae'r cyfraniadau ysgrifenedig, ac agendâu a nodiadau cryno cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru](#)

## Diweddariad

6. Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf NAFW ar-lein ar 22 Tachwedd 2022. Mae pob eitem yn cynnwys amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.
7. Hysbyswyd yr aelodau fod swyddogion Llywodraeth Cymru, yn dilyn y newid i bortffolios Gweinidogion, wedi darparu briff cynhwysfawr i'r Gweinidog newydd ar faterion mynediad, yn cynnwys mynediad i ddŵr, ac mae disgwyl i'r ymrwymiad blaenorol gan y Dirprwy Weinidog i gyfarfod â Chadeirydd NAFW i drafod y materion hyn ac ymateb ddigwydd yn fuan.
8. Rhannodd Kate Jury, Ramblers GB, uchafbwyntiau o waith ymchwil a gomisiynwyd i hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad gyda ffocws ar fynediad teg. Mae hyn yn rhan o waith y Cerddwyr i ddatblygu a rhannu sail tystiolaeth ac i lywio eu strategaeth fewnol a gweithio ag eraill. Bydd yr ymchwil yn cael ei chyhoeddi yng Ngwanwyn 2023.
9. Rhoddodd Eifion Jones, Cynghorydd Arbennig Creu Coetiroedd a Rhodri Hewitt, Swyddog 2, Coedwig Genedlaethol (CNC) drosolwg o'r Cynlluniau Creu Coetiroedd newydd yng Nghymru, yn cynnwys y cynllun Creu Coetir Grantiau Bach, Cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r Goedwig Genedlaethol. Rhannwyd manylion am y modd yr oedd ystyriaethau hamdden a mynediad wedi'u cynnwys yn y cynlluniau.
10. Rhoddodd Sue Ginley, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Cynllunio Corfforaethol a Llywodraethu Perfformiad (CNC) drosolwg a diweddariad ar Gynllun Corfforaethol CNC a hysbyswyd yr aelodau o'r cyfle i ddarparu adborth a sylwadau fel rhan o ddatblygiad y Cynllun.
11. Rhannodd Carys Drew, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol: PROW a Rhwydweithiau (CNC) grynodedb o'r adborth a dderbyniwyd o arolwg aelodau am drefniadau cyfarfodydd a nododd y camau gweithredu arfaethedig a fyddai'n cael eu cymryd o ganlyniad i hynny. Bydd cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu cynnal ar-lein gyda threfniant hybrid (cyn belled bod cyfleusterau ar gael).
12. Dosbarthwyd cyfraniadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod a chafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau amdanynt ac i rannu diweddariadau pellach.
13. Mae cofnod y cyfarfod yn nodyn crynodeb yn hytrach na chofnod gair am air, mae'n cael ei ddosbarthu fel fersiwn drafft, yn cael ei gadarnhau drwy e-bost, yna'n cael ei gyhoeddi ar y wefan.
14. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar-lein ar 14 Mawrth 2023.



## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Adroddiad Perfformiad Ariannol
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B14
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Rob Bell, Pennaeth Cyllid; Mark Collins, Rheolwr Cyllid Busnes
<b>Diben y Papur</b>	Cymeradwyo (newid yn y rhagolygon) / Trafodaeth (Perfformiad Ariannol)
<b>Crynodeb</b>	<b>I'w gymeradwyo:</b> Diwygiad i'r rhagolygon, o £238.2m i £238.7m. <b>I'w ystyried</b> Perfformiad ariannol hyd at ddiwedd Tachwedd 2022. Camau a gymerwyd i gydbwyso'r gyllideb.

### Cefndir

1. Mae papur ar wahân i'w gymeradwyo.

#### Perfformiad Ariannol hyd 30 Tachwedd 2022

2. Mae'r Adroddiad Cyllid yn rhoi manylion am y cynnydd ar draws y gwahanol fathau o incwm, gwariant, a rhaglenni. Mae Atodiad A yn crynhoi'r negeseuon allweddol o ran:
- Perfformiad hyd ddiwedd Tachwedd 2022, o'i gymharu â'r rhagolygon diweddaraf.
  - Risgiau i ni allu gwario o fewn lefelau ein cyllid.
  - Sylwebaeth drwy eithriad ar sut rydym yn symud ymlaen yn erbyn rhagolygon ar gyfer y gwahanol fathau o wariant.
  - Newid yn y rhagolygon.

Mae un rhan o'r adroddiad sy'n dal i fod yn cael ei ddatblygu - dadansoddiad o gostau nad ydynt yn gostau staff.

3. Mewn cyfarfodydd blaenorol rydym wedi esbonio'r newidiadau i'n cyllid/incwm a ragwelir eleni – yn bennaf mewn perthynas â'r Rhaglen Cyfalaf Llifogydd, pren, a mathau eraill o incwm masnachol. Arweiniodd hyn at y rhagolygon yn gostwng i £238.2m. Y mis hwn, mae wedi cynyddu i £238.7m – y rhan fwyaf ohono'n gysylltiedig â defnyddio balansau dros ben taliadau Gwastraff Peryglus.
4. 130.2m oedd yr incwm ddiwedd Tachwedd, sy'n uwch na'r rhagolygon hyd yma (£0.6m). Roedd gwariant yn £131.9m yn erbyn rhagolwg o £130m - 1% o amrywiant ac roedd 55% o'r gyllideb wedi'i gwario. Er bod y gwariant yn unol â'r proffil, roedd cryn risg y byddwn yn gorwario oni cheir ymyrraeth. Felly, rydym wedi cynnal rhagolwg o'n cyllidebau nad ydynt yn wariant staff a chyllidebau prosiectau yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr, gan fynd ati i chwilio am ostyngiadau yn y cyllidebau gwariant (y mae canlyniadau'r rhain wedi eu crynhoi isod). Yr un adeg y llynedd, roeddem wedi gwario £116m (53% o'r gyllideb flynyddol).
5. Dyma'r negeseuon allweddol ynglŷn â'n perfformiad incwm fel yr oedd ar ddiwedd mis Tachwedd:
  - Mae'r incwm o bren yn £23.6m ac ychydig yn is na'r rhagolwg diweddaraf hyd yn hyn o £23.9m, yn seiliedig ar ragolwg ar gyfer y flwyddyn o £36.4m. Er hynny, mae ein rhagolygon diweddaraf yn rhagweld alldro o rhwng £34m a £35m, gyda'r canlyniad mwyaf tebygol yn agosach at £34m. Ynghyd â'r gostyngiad yn faint o bren sy'n cael ei anfon o'r Stad, rydym wedi gweld gostyngiad yn y pris cyfartalog. Mae'r pris cyfartalog wedi gostwng o £63.8 y dunnell ym mis Medi i £58.2 y dunnell ym mis Tachwedd – oherwydd bod newid yn y cymysgedd o gynnyrch sy'n cael ei anfon. Mae gwerthiant pren gwerth uwch wedi arafu, gyda galw mawr am Asglodion (Chipwood) rhatach. Bydd hyn yn dechrau cydbwysu wrth i'r pren sy'n weddill gael ei godi.
  - Rydym wedi cynnwys rhagolwg incwm ar gyfer derbyn gwerthiant Forest Holidays LLP – derbyniwyd arian ym mis Tachwedd. Rydym wedi gostwng y gyllideb Grant Cymorth ychwanegol gan fod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar y pryd gyda Llywodraeth Cymru – y byddai'r Grant Cymorth a addawyd yn y llythyr cysur yn gostwng yn unol â hynny. Rydym yn fwy gobeithiol bellach na fydd ein Cymorth Grant yn cael ei leihau – mae swyddogion Llywodraeth Cymru o blaid i ni ei gadw, ond mae'n destun cymeradwyaeth gan Weinidogion.
6. Y negeseuon allweddol ynglŷn â'n perfformiad gwariant yw:
  - Staff – roedd y gwariant hyd at ddiwedd Tachwedd yn £67.7m yn erbyn cyllideb o £67.5m. Mae'r rhagolygon ar gyfer costau cyflogau wedi eu gwneud o'r newydd a chyllidebau wedi'u haddasu yn unol â hynny. Mae darpariaeth wedi'i neilltuo ar gyfer y dyfarniad cyflog a gafodd ei ddsbarthu i'r Cyfarwyddiaethau ym mis Rhagfyr – cafodd hyn ei ariannu o'r rhagolygon cyflogau a wnaed o'r newydd ganol y flwyddyn. Rydym yn dal i weithredu ar dybiaeth o reoli swyddi gwag o 6%, gyda'r perfformiad presennol tua 10% ond rydym wedi ystyried hynny o fewn ein rhagolwg am weddill y flwyddyn ariannol.
  - Cyllidebau nad ydynt ar gyfer staff – yn gyffredinol mae'r gyllideb yn weddol debyg i'r llynedd gyda llawer o gostau sefydlog wedi'u cynnwys. Mae'n cynnwys

elfennau mwy amrywiol hefyd megis Gweithrediadau Coedwigoedd. Rydym ychydig y tu hwnt i'r gyllideb ddiwedd mis Tachwedd (2%), ac rydym dros £3m y tu hwnt i ble'r oeddem yr adeg yma'r llynedd.

- At ei gilydd, mae gennym £64m wedi'i gyllidebu ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw, ac mae hyn yn £9m (16%) yn fwy na'r hyn a wariwyd gennym yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (£55.6m).
  - Rhaglen Cyfalaf Llifogydd – yn seiliedig ar gyllid sy'n cael ei ddiwygio ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (£17m), mae lefel y gor-raglennu wedi parhau i fod yn £3.7m. Mae'r rhaglen yn mynd yn ei blaen, ac mae'r tîm yn teimlo mai dyma'r isafswm y gallwn ei wario. Rydym wedi trafod cynyddu'r arian gyda Llywodraeth Cymru, ond bydd angen iddynt fod yn sicr bod cyllid ar gael cyn cytuno ar arian sylweddol (sydd heb ei wario) sydd wedi'i ymrwymo i brosiectau Awdurdodau Lleol. Byddant yn gorfod ystyried gor-ymrwymiad ar draws eu cyllideb adrannol hefyd. Os na fyddwn yn sicrhau'r cyllid ychwanegol, bydd yn rhaid arafu prosiectau. Mae'r gwariant hyd yma'n £8.6m yn erbyn rhagolwg o £8m, yn erbyn cyllideb graidd y rhaglen o £14.1m.
11. We are content with the levels of the precepts in the IDD's for 2023/24. Precept recharge calculations will be revisited in 2023/24 to ensure inflationary pressures are fully reflected.
12. We are proposing that the precepts for the thirteen IDD's for 2023/24 remain at 2022/23 levels.
13. There have been informal discussions with members of the Advisory Groups advising them that we were not recommending increases in the precept.

## Special Levies and Drainage Rates Proposals

14. Table 2 below provides details of the Special Levies (£1,360k) and the Drainage Rates (£191k) being proposed for 2023/24. The table in annex 2 provides a comparison to the previous financial year.

**Special Levies and Drainage Rate Proposals 2023/24 – Table 2**



Dosbarth Draenio Mewnol Internal Drainage District	Ardoll Arbennig Special Levy 2023/24 £	Cyfradd Draenio Drainage Rate 2023/24 £
Gwent: Gwy Isaf / Lower Wye	17,071	1,445
Gwent: Cil y Coed a Gwynllwg / Caldicot & Wentlooge	1,116,670	33,305
Powysland	46,204	54,100
Afon Ganol	16,356	642
Cors Ardudwy / Ardudwy Marsh	16,340	3,050
Cors Borth / Borth Bog	10,943	18,084
Afon Conwy	25,676	8,490
Dysynni	21,171	14,939
Glaslyn a Phensyflog / Glaslyn & Pensyflog	27,232	2,286
Harlech a Maentwrog	25,211	3,514
Llanfrothen	4,336	18,316
Cors Malltraeth / Malltraeth Marsh	4,197	28,366
Mawddach ac Wnion / Mawddach & Wnion	25,361	1,420
Tywyn	2,860	3,396
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>1,359,628</b>	<b>191,353</b>

15. Given the current economic climate, increases in costs are only to be expected. Increased electricity and fuel prices are already starting to bite, and as we go into a period where we will be putting the maintenance contract out for tender it is apparent that the price that contractors will be bidding is going to be rather more than we have paid to date.
16. The Special Levies and Drainage Rates recommended have increased slightly in the North IDD's compared to 2022/23. Special Levies have increased by £1.6k and

Drainage rates have increased by £3.6k. This is due to increased maintenance costs at some of the North IDD's (Dysynni, Malltraeth, Llanfrothen and Tywyn). Informal discussions with the North IDD advisory groups will be held in December 2022.

17. The Powysland penny rate will increase for the first time in 6 years in 2023/24 with the Special Levies increasing by £1.8k and Drainage rates by £2.1k to reflect the likely increase in maintenance contract costs. The Powysland Advisory Group is planning to meet on December 14th.
18. The Gwent IDD Advisory group will also be meeting on December 14th. There will be no change to the Lower Wye rates though Caldicot & Wentlooge's penny rate will increase by 15%. This is in line with last year's budget paper which noted that "Forecasted expenditure for next year will fully utilise the remaining balances and therefore rates will need to be increased from 2023/24 in order to cost recover expenditure on maintenance and essential plant purchases". Special Levies for Caldicot & Wentlooge will increase by £146.3k and Drainage rates by £4.4k in 2023/24.
19. Local Authorities must also contribute via Special Levies. They will be contacted by officers to advise them of our proposals and the impact on their respective Local Authority. The Team Leader, Integrated Engineering North West will be contacting the Farmers Union of Wales (FUW) and the National Farmers Union (NFU) to outline our maintenance work plans, as well as informing them of the proposed increased Drainage Rates for the 11 IDD's in North West Wales.
20. At previous Advisory Group meetings, we informed members that NRW is complying with the new accounting standard IFRS 15 (Revenue from Contracts with Customers), which was implemented from 1 April 2018.  
  
We agreed with Audit Wales that IDD's can have an individual **accidental** maximum balance (surplus or deficit) of under 5% of the scheme's annual income or under £50k, whichever the greater at the end of a financial year which it can carry forward for use in the next financial year or taking into account when next setting levies and rates. There will be an exception where funds need to be built up for a significant expense or programme / project.
21. Powysland IDD and the Caldicot & Wentlooge sub-district of the Gwent IDD, are the only IDD's with a material balance, and in line with our IFRS15 policy and agreement with Audit Wales, those balances will need to be used by 31st March 2024.
22. Caldicot are currently carrying out an appraisal of their 5-year capital plan. This will ensure that any expenditure on maintenance and plant purchases are prioritised and phased across the period.
23. Powysland IDD pump station review currently being undertaken by North - this will confirm future maintenance plans. Powysland IDD plan to use their reserves (circa £60k) on a capital investment programme.
24. The Ardudwy and Glaslyn Pencyflog IDD's are currently carrying large balances which are within the limit of IFRS 15, but still need to be addressed. We will be replacing assets in both Ardudwy and Glaslyn Pencyflog IDD's which are not fit for purpose.

25. Drainage rates are calculated on the chargeable value of agricultural land and therefore any changes in the use of the land will be reflected in the rates.

## Risks and opportunities

26. If the Precepts, Drainage Rates and Special Levies are not approved then we will not meet the statutory deadlines and the programme of works will not be authorised.

## Wider implications

27. **Finance:** Approval of the proposals in this paper will allow the collection of income, which is used to fund direct works.

28. **Equality:** An Initial Screening has been completed, which indicated that a full Equality Impact Assessment is not required for the proposals in this paper.

## Next Steps

29. Timelines.

- Executive Team consideration 20 December 2022.
- FRMC Board consultation via correspondence - circulated after Executive Team.
- FRMC Board approval 24 January 2023.
- Formally approved by Board 26-27 January 2023.
- Drainage rates published on NRW internet - within 10-day of Board approval (by 3 February 2023).
- Sealed schedules of Special Levies posted to Local Authorities by 14 February 2023.

## Recommendation

30. The NRW Flood Risk Management Committee is requested to:


- agree the proposed Precepts, Drainage Rates and Special Levies for 2023/24.
- The proposal will also be submitted to the Board for approval.

## Index of Annexes

Annex 1 – Map of IDD's

Annex 2 – Drainage rate and Special Levy income by IDD

### Annex 1 – Internal Drainage Districts





## Annex 2 – Special Levies and Drainage Rates

Dosbarth Draenio Mewnol Internal Drainage District	Advisory Group	Drainage rate pence		Special Levy		Local Authority
		2022/23	2023/24	2022/23	2023/24	
Gwent: Gwy Isaf / Lower Wye	Lower Wye	1.4	1.4	17,071	17,071	Monmouth
Gwent: Cil y Coed a Gwynlwg / Caldicot & Wentlooge	Caldicot & Wentlooge	6.1	7.0	970,326	1,116,670	Cardiff, Newport & Monmouth
Powysland	Powysland	12.5	13.0	44,427	46,204	Powys
Afon Ganol	Conwy	11.1	11.1	16,356	16,356	Conwy
Cors Ardudwy / Ardudwy Marsh	Dwyfor & Merionnydd	20.9	20.9	16,340	16,340	Gwynedd
Cors Borth / Borth Bog	Borth	46.4	46.4	10,943	10,943	Gwynedd
Afon Conwy	Conwy	34.3	34.3	25,676	25,676	Conwy
Dysynni	Dolgellau	49.0	51.6	20,113	21,171	Gwynedd
Glaslyn a Phensyflog / Glaslyn & Pensyflog	Dwyfor & Merionnydd	9.9	9.9	27,232	27,232	Gwynedd
Harlech a Maentwrog	Dwyfor & Merionnydd	12.5	12.5	25,211	25,211	Gwynedd
Llanfrothen	Dwyfor & Merionnydd	69.7	74.7	4,045	4,336	Gwynedd
Cors Malltraeth / Malltraeth Marsh	Malltraeth	42.7	45.2	3,966	4,197	Ynys Mon
Mawddach ac Wnion / Mawddach & Wnion	Dolgellau	12.8	12.8	25,361	25,361	Gwynedd
Tywyn	Dolgellau	72.0	73.1	2,820	2,860	Gwynedd
				1,209,887	1,359,628	

Red text highlights IDD 2023/24 changes compared against 2022/23.

# Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Ionawr 2023</b>
<b>Teitl y Papur:</b>	Diweddariad ar Natur a Ni
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B16
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Russell De'ath, Uwch Gyngorydd Arbennig, Gweledigaeth 2050
<b>Diben y Papur:</b>	Darparu diweddariad ar Raglen Natur a Ni a'r gwaith tuag at ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru.

## Mater

1. Yn 2018, heriodd y Bwrdd CNC i arwain sgwrs genedlaethol i ddatblygu gweledigaeth a rennir (Gweledigaeth 2050) ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, ac fe sefydlwyd rhaglen "Natur a Ni". Mae cam nesaf y rhaglen yn tynnu allbynnau'r sgwrs genedlaethol ynghyd drwy sefydlu cynulliad dinasyddion, i helpu i lywio'r weledigaeth derfynol. Rydym yn awyddus i friffio Aelodau'r Bwrdd yn llawn ar y cynlluniau i gynnal cynulliad dinasyddion, a sicrhau bod gennych wybodaeth briodol i allu esbonio'n dull pe bai rhywun yn eich holi. Mae dogfen "Cwestiynau Cyffredin" ar gael ar gais.

## Cefndir

2. Sgwrs genedlaethol dros flwyddyn gyfan yw Natur a Ni i ddatblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer y flwyddyn 2050 ac ystyried y newidiadau sy'n rhaid i bawb ohonom eu gwneud yn arwain at 2030 a 2050, fel unigolion ac fel gwlad.
3. Yn dilyn cam cymryd rhan a gynhaliwyd rhwng Chwefror a Mai 2022, cynlluniwyd ail gam yn canolbwyntio ar gohortau demograffig nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn y cam cyntaf. Y nod cyffredinol oedd cael dealltwriaeth ddyfnach o safbwyntiau cymunedau sydd prin yn cael eu clywed ar naw datganiad gwahanol ynghylch sut y byddwn yn byw yn y dyfodol. Datblygwyd y datganiadau trwy adeiladu ar yr ymatebion a gasglwyd yn y cam cymryd rhan gyntaf, ac felly ystyrir eu bod yn cynrychioli barn y rhai a gymerodd ran yn y cam cyntaf hwnnw.
4. Cynlluniwyd yr ail gam i brofi a oedd y gwahanol grwpiau hyn yn gweld eu hunain yn y datganiadau hyn i'r dyfodol a pham – ac os na, pa heriau neu rwystrau a allent eu nodi.

Gofynnwyd y cwestiynau hynny fel rhan o gyfres o grwpiau ffocws wedi'u targedu. Mae canlyniad y trafodaethau grŵp ffocws wedi'i grynhoi mewn adroddiad tystiolaeth sydd hefyd ar gael ar gais, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein yn fuan. Rydym yn rhoi cyflwyniad byr i'r Bwrdd hefyd i rannu rhai o'r lleisiau rydym wedi'u clywed gydol y broses.

5. Er mwyn dod â'r cam hwn o'r gwaith i ben, ystyriwyd nifer o opsiynau gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori a Bwrdd y Rhaglen. Y prif ffactorau wrth wneud penderfyniadau oedd ein bod am gael dull:
  - a. a oedd yn gadarn ac yn cynrychioli poblogaeth Cymru.
  - b. a oedd yn lleihau'r rhagfarn wybyddol a chadarnhau y gallem ei chael wrth lywio'r weledigaeth.
  - c. nad oedd yn rhoi baich ychwanegol ar staff CNC mewn lleoedd
  - d. a allai sicrhau bod y weledigaeth derfynol yn cael ei chwblhau erbyn Gwanwyn 2023.

Roedd yr opsiynau a ystyriwyd yn cynnwys sut y gallem ddefnyddio mecanweithiau cyfredol, fel paneli dinasyddion awdurdodau lleol drwy'n rhwydweithiau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â'r opsiwn i sefydlu cyfres bellach o weithdai cyfranogi. Ystyriwyd bod yr opsiynau hyn yn gymhleth, yn cymryd amser ac yn gofyn am fwy o amser staff i sicrhau dull cyson y gellid ei ailadrodd ar draws pob awdurdod lleol / Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru. Ni fyddai defnyddio fforymau cyfredol awdurdodau lleol / Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwarantu y byddai'n dull yn gwbl gynrychioliadol. Y dull a ffafriwyd oedd sefydlu cynulliad dinasyddion.

6. Rydym yn gweithio gydag asiantaeth ymgysylltu arbenigol yn awr i gynllunio a darparu cynulliad dinasyddion i helpu i lywio'r weledigaeth. Credwn mai dyma'r ffordd decaf o ddatblygu gweledigaeth i Gymru sy'n cynrychioli lleisiau dinasyddion. Drwy ddefnyddio cynulliad dinasyddion i gytuno ar weledigaeth bydd yn darparu mandad i sbarduno amrywiaeth o gamau gweithredu ymlaen i gyflawni ar yr argyfyngau natur a hinsawdd.
7. Bydd Canolfan Ymchwil Ymgynghori'r [Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol](#) (NatCen) yn cynnal y cynulliad dinasyddion ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhan o sefydliad ymchwil gymdeithasol fwyaf Prydain, ac yn cynhyrchu tystiolaeth y gall llunwyr polisïau a dinasyddion ei defnyddio i lywio, ymgysylltu â materion cymdeithasol cymhleth a'u trawsnewid.
8. Mae recriwtio aelodau'r cynulliad yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth wedi'i contractio gan y [Sortition Foundation](#). Sefydliad nid-er-elw yw'r Sortition Foundation sy'n arbenigo mewn recriwtio a dethol pobl ar hap i gymryd rhan yn y math yma o ddigwyddiadau, mewn ffordd sy'n gynrychiadol o'r boblogaeth ehangach yn fras.
9. Sefydlodd rhaglen Natur a Ni Banel Cynghori i helpu i lywio ffocws, cynnwys a dulliau hwyluso'r cynulliad. Mae hyn yn cynnwys cymysgedd o gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector o'r sefydliadau canlynol:

- Prifysgol Caerdydd

- Rhwydwaith Cynghorau Sir

- Dŵr Cymru Welsh Water
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- OASIS Caerdydd
- Un Llais Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- Prifysgol Lerpwl/ FLiNT
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Clybiau Ffermwyr Ifanc

Gwahoddwyd aelodau'r panel ar sail eu profiad o ymgysylltu, ymchwil ymgynghori neu eu cyfraniad at waith tebyg. Mae'r Panel Cynghori'n cyd-gynllunio proses y cynulliad, yn unol â'n dull Tîm Cymru. Unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau, gwahoddir y Panel Cynghori i gyfarfod i glywed argymhellion y Cynulliad, ac i fyfyrion ar y broses a'r effaith wrth symud ymlaen.

10. Cynhelir y cynulliad dros dri chyfarfod ym mis Chwefror a dechrau Mawrth:

- Sesiwn 1: 11 Chwefror (ar-lein)
- Sesiwn 2: 4-5 Mawrth, digwyddiadau wyneb yn wyneb yn Wrecsam a Bae Abertawe
- Sesiwn 3: 18 Mawrth (ar-lein)

Bydd holl aelodau'r Cynulliad Dinasyddion yn cael eu talu am eu hamser ar gyfradd safonol sy'n gymharol i'r hyn a delir am gymryd rhan mewn ymchwil i'r farchnad (cyfwerth â £100 y dydd yn fras).

11. Mae'r Panel Ymgynghori wedi cytuno mai'r cwestiwn craidd i'r Cynulliad Dinasyddion ei ystyried yw "Sut ddyfodol fydd yna pan fo cymdeithas a natur yn ffynnu gyda'i gilydd?". Bydd canlyniadau'r Cynulliad yn llywio'r weledigaeth yn uniongyrchol ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Nghymru, a'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd ar gyfer natur a phobl.

## Crynodeb

12. Mae'r sgwrs genedlaethol Natur a Ni wedi para am flwyddyn ac yn cyrraedd uchafbwynt cyffrous yn awr gyda'r cynulliad dinasyddion sy'n grymuso dinasyddion i helpu i lywio'r weledigaeth.

## Argymhelliad

13. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r papur hwn a'i atodiadau yn cynnwys y mesur risgiau a lliniaru isod.

## Prif Risgiau

14. Nid yw cynullïadau dinasyddion yn fath newydd o ddull ymgynghori, ond dyma'r tro cyntaf i CNC hwyluso un ei hun ac felly mae yna lawer i'w ddysgu. Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n cael y gwerth posibl o'r dysgu.
15. Gellir beirniadu cynullïadau dinasyddion am ddefnyddio gormod o adnoddau. Mae costau'n gysylltiedig â'r broses ddethol, a thalu am amser cyfranogwyr. Gall cael grŵp cymharol gynrychioliadol o bobl fod yn heriol a drud, ac mae'r broses o ddatblygu a chynllunio cynullïad yn ddwys ac yn gofyn am lawer o adnoddau dros gyfnod byr. Fodd bynnag, o gymharu ag opsiynau eraill yr edrychwyd arnynt rydym yn gallu sicrhau gwerth am arian ac allbwn cadarn, cynrychioliadol. Rydym wedi dilyn pob arweiniad arfer da, ac wedi bod yn gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i sicrhau bod hwn yn ymarfer cydweithredol, sy'n galluogi pawb i ddefnyddio'r allbynnau. Wrth wneud hynny rydym yn sicrhau bod yr adnoddau sy'n cael eu gwario ar y broses hon yn cael eu gwario ar ran Tîm Cymru yn gyffredinol.
16. Mae yna berygl bod y cynullïad dinasyddion yn cael ei weld fel ymarfer cyhoeddusrwydd os nad oes canlyniadau gwirioneddol yn ei ddilyn. Mae'n rhaid i CNC fod yn wirioneddol agored i'r cyhoedd gan gynhyrchu syniadau ac atebion newydd na fyddem yn eu hystyried ein hunain o bosibl. Gall rhai o'r atebion hyn fod y tu allan i gwmpas ein swyddogaethau, felly mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i adeiladu ar y cysylltiadau mae Tîm Cymru wedi'u sefydlu hyd yn hyn.

## Y Camau Nesaf

17. Rydym yn datblygu proses i gynnwys Bwrdd Rhaglen Natur a Ni a chynrychiolwyr eraill o bob cwr o CNC i helpu i gynllunio cam nesaf rhaglen Natur a Ni. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori'r dysgu, gwneud y gorau o effaith a gwaddol ein gwaith, a sut y bydd sgysiau am y weledigaeth a rennir yn cael eu defnyddio mewn ffordd a fydd yn sbarduno'r newidiadau a fydd eu hangen ar draws cymdeithas, ac yn cyflawni'r ystod lawn o fanteision. Mae yna rai cysylltiadau mewnol ac allanol pwysig sy'n rhaid eu gwneud ac a fydd yn cael eu cynnal – yn enwedig gyda Llywodraeth Cymru ynghylch newid ymddygiad Sero Net, yr argymhellion yn dilyn yr Archwiliad Dwfn ar Fioamrywiaeth a chyda sector y celfyddydau a diwylliannol am ein nodau cyffredin i gefnogi trawsnewidiadau diwylliannol.

## Goblygiadau Ariannol

18. Mae'r holl gostau wedi'u cymeradwyo fel rhan o'r Cynllun Busnes cyfredol. Mae cost gyfunol y cynullïad dinasyddion a'r broses ddethol ychydig dros £80,000 neu 25% o gyllideb y rhaglen a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2022, ac rydym yn gweithio o fewn y paramedrau cyllideb cyfredol hynny. O ystyried y byddwn am wneud gwaith dilynol ar rai agweddau hirdymor o bosibl (fel effeithiau parhaus gwaith gweledigaeth 2050), a'r manteision a wireddir drwy gysylltiadau â rhanddeiliaid), rydym yn disgwyl rhywfaint o oblygiadau o ran adnoddau i mewn i gyfnod y Cynllun Corfforaethol nesaf. Byddwn yn sicrhau bod hynny'n cael ei flaenoriaethu yn ôl yr adnoddau sydd ar gael ac yn chwilio am gyfleoedd ac arbedion drwy gysylltu ag ymarferion tebyg eraill ar draws y sefydliad.

## **Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

19. Paratowyd Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cam cyntaf Natur a Ni ac fe'i rhannwyd â'r Bwrdd yn flaenorol. Mae Aseiad ar wahân wedi'i baratoi ar gyfer gwaith y cynulliad dinasyddion ac mae ar gael ar gais.

# Ymgysylltiad Cyhoeddus y Bwrdd – canlyniadau arolwg cyhoeddus

Cyflwynir gan Colette Fletcher, Ysgrifennydd a  
Phennaeth Llywodraethu'r Bwrdd

Dadansoddiad gan Bethan Williams-Price ac Andy  
Mills, Consultation Institute





---

# Atgoffa



- Ym mis Tachwedd 2022 cynhaliodd Consultation Institute adolygiad desg o weithgarwch ymgysylltu cyhoeddus cyfredol y Bwrdd a modelau posibl ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar arferion gorau'r sector. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod CNC yn llwyddo'n dda o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y Bwrdd o gymharu â chyrrff cyhoeddus eraill.
- Gydol mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022 comisiynwyd arolwg o'r cyhoedd ar ymgysylltu â chyfarfodydd Bwrdd CNC ac ynddynt. Roedd yr arolwg yn mesur yr awydd am gynnwys y cyhoedd ac yn profi ffyrdd y gallai'r cyhoedd gyfrannu ymhellach.

---

# Methodoleg



- Cyd-gynlluniwyd yr arolwg gan CNC a'r Consultation Institute.
- Fe'i cynhaliwyd yn Gymraeg a Saesneg ar Citizen Space a'i hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol CNC (Twitter, Facebook a LinkedIn).
- Anfonwyd dolen electronig i'r arolwg at 21 o randdeiliaid a oedd wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd dros y tair blynedd diwethaf (nail ai wyneb yn wyneb neu ar-lein) (dim ond 3 a gwblhaodd yr arolwg – cyfradd drosi o 14%).
- Cafodd y ddolen i'r arolwg ei rhannu ar sianeli cymdeithasol CNC dair gwaith yn ystod y 29 diwrnod pan oedd ar agor.

---

# Ymatebion i'r arolwg



- Cafwyd 10,421 o argraffiadau cyffredinol ar draws yr holl sianeli cyfryngau cymdeithasol (4,542 Cymraeg, 5,746 Saesneg) a 120 o gliciadau – cyfradd drosi o ychydig dros 1%. Cafodd negeseuon eu rhannu 22 o weithiau a chwblhaodd 18 o bobl yr arolwg yn dilyn clicio. Mae hyn yn awgrymu nad yw ymgysylltu'n gyhoeddus yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn brif flaenoriaeth i lawer.
- Derbyniwyd 18 o ymatebion. 3 gan randdeiliaid: Dyfroedd Cymru, Undeb Afonydd Cymru ac Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig. Mynegodd 15 o bobl farn bersonol.
- Nododd 17 o'r 18 o ymatebwyr eu bod yn Wyn Prydeinig, roedd 12 dros 55 oed ac roedd y gymhareb atebion dynion i fenywod yn 11:7.
- Mae ehangder y data a gasglwyd (18 o ymatebion) yn rhy gyfyngedig i ni allu gwneud dadansoddiad meintiol ac ansoddol manwl. Felly rydym yn cynghori y dylid trin y canlyniadau a'r dadansoddiad yn ofalus o ran barn gynrychioliadol y cyhoedd neu randdeiliaid.

---

# Canlyniadau: Presenoldeb



- Roedd 8 o bobl wedi mynychu cyfarfod o'r Bwrdd yn y gorffennol a 10 heb fynychu.
- O'r 8 a oedd wedi mynychu, dywedodd 7 eu bod wedi gwneud gan fod ganddynt ddiddordeb mewn pwnc a drafodwyd gan y Bwrdd. Roedd eraill am ofyn cwestiwn neu am wybod beth oedd yn digwydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- Nid oedd y rhai nad oedd wedi mynychu cyfarfod yn gwybod eu bod yn gallu gwneud hynny, ddim yn gwybod am y cyfarfodydd, ac roedd yna ddiffyg gwybodaeth.
- Roedd y rhai a fynychodd wyneb yn wyneb wedi gwneud hynny'n bennaf am eu bod yn chwilfrydig.
- Roedd y rhai a fynychodd ar-lein yn dweud ei bod yn broses gymharol syml, gydag un yn awgrymu y dylid rhoi cynnig ar blatfformau heblaw MS Teams gan and yw rhai fersiynau o Teams yn gweithio'n dda neu'n gydnaws â phob porwr gwe. Dywedodd rhai eu bod wedi mynychu oherwydd eu bod yn chwilfrydig gydag un ymatebydd yn dweud ei fod am ofyn cwestiwn.

---

# Canlyniadau: Opsiynau ymgysylltu



- Nid oedd yr ymatebwyr wedi mynegi unrhyw ddymuniad cryf i osod y sesiwn Holi ac Ateb mewn man penodol ar yr agenda, ond roedd yna gefnogaeth gref i gyflwyno cwestiynau gan y cyhoedd ymlaen llaw, gydag ymatebion i'w rhoi yn y cyfarfod a'u cofnodi.
- Yn yr un modd, cafwyd cefnogaeth gref i gynnal sesiwn leol ar wahân (ar-lein neu wyneb yn wyneb) y tu allan i gyfarfodydd cyfredol y Bwrdd i drafod pwnc o ddiddordeb cyfredol i'r cyhoedd yn lleol i leoliad cyfarfod y Bwrdd.
- Roedd y gefnogaeth ychydig yn fwy cymysg ar gyfer grŵp ffocws/rhanddeiliaid cenedlaethol ar wahân i ymgysylltu â'r cyhoedd ar bynciau sydd â chysylltiad uniongyrchol ag agenda'r Bwrdd.

---

# Canlyniadau: Awgrymiadau eraill 1



- ‘Cyfarfodydd i fod yn nes at y lleoliad’ – awgrymu cod post NP7 (Crucywel)
- ‘Cynnal mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da’ – awgrymu cod post HR3 (Y Gelli Gandryll) a SY16 (Y Drenewydd)
- ‘Defnyddio platfformau ymgysylltu eraill’ e.e. Zoom neu Weddarlledu (heb nodi hoff ddull)
- ‘Cynnal sesiynau cyhoeddus wyneb yn wyneb/ar-lein ychwanegol i’w trefnu y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd’. Hwn oedd yr awgrym mwyaf poblogaidd, a gefnogwyd gan 10 ymatebydd. Ni nodwyd unrhyw ddull neu le penodol.
- ‘Angen anfon agendâu yn gynt’.
- ‘Dylai pob sesiwn gyhoeddus Teams sy’n cael ei recordio fod ar gael i’r cyhoedd ar ôl y cyfarfod. Dim ond ychydig o bobl sy’n gallu gadael eu gwaith i fynychu’.
- ‘Darparu crynodeb syml o bapurau’r Bwrdd a’r sail resymegol’.
- ‘Gwella’r cyfathrebu am y cyfarfodydd – sut rydych chi’n cael eich gwahodd, eich hysbysu a’ch cofrestru i fynychu?’

---

# Canlyniadau: Awgrymiadau eraill 2



- ‘Gwneud mwy ar yr elfen Gwyddor Dinasyddion – gallai helpu i sicrhau llawer mwy o ffocws i ochr ‘orfodi’ gwaith CNC.’
- ‘Cario cwestiynau drosodd nes cael ateb boddhaol.’
- ‘Gwrando ar gymunedau i’w helpu i amddiffyn ceisiadau cynllunio niweidiol.’
- ‘Ei gwneud hi’n bosibl i’r cyhoedd drafod yr eitemau ar agenda’r Bwrdd ar-lein, cyn cyfarfod y Bwrdd.’
- ‘Gwneud crynodeb o’r trafodaethau yn un o’r papurau a gyflwynir yng nghyfarfod y Bwrdd.’
- ‘Mae gen i fwy o ddiddordeb mewn materion gweithredol y gellir eu trafod ar wahân nac ym mecanwaith y sefydliad.’
- ‘Cyhoeddi rhestr o gysylltiadau staff fel y gall sefydliadau fel ni fynd atynt yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy rif canolog cyffredinol sy’n cymryd hydoedd i gyrraedd nunlle. Dylai aelodau’r Bwrdd fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda sefydliadau fel ni.’
- ‘Rhoi gwybodaeth fwy croesawgar ar safleoedd lleol, fe fydden i wrth fy modd yn cymryd rhan pe bawn i’n cael gwybodaeth am sut i wneud hynny.’

---

# Crynodeb 1



- Cyfradd ymateb isel felly'n anodd cyffredinoli.
- Nid yw ein negeseuon cyfredol am gyfarfodydd y Bwrdd drwy'r wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd/ennyn ymateb gan bobl. Efallai y bydd angen i ni ystyried cyfathrebu lleol wedi'i dargedu ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- Mae yna awydd i ystyried platfformau heblaw Teams.
- Roedd yna gefnogaeth gref i gyflwyno cwestiynau cyhoeddus ymlaen llaw, rhoi ymatebion yn y cyfarfod a'u cofnodi, a chario cwestiynau drosodd nes derbyn ymateb boddhaol. Nid oedd teimladau cryf am ble ddylid gosod y sesiwn Holi ac Ateb gyhoeddus ar yr agenda.
- Roedd yna gefnogaeth gref hefyd i newid natur gwaith ymgysylltu'r Bwrdd, yn cynnwys sesiynau lleol ar wahân i'w cynnal yn lleoliad cyfarfodydd wyneb yn wyneb y Bwrdd. Roedd pynciau o ddiddordeb yn cynnwys gwyddor dinasyddion, materion gweithredol a cheisiadau cynllunio.



---

# Crynodeb 2



- Roedd yna awydd i ystyried grŵp ffocws/rhanddeiliaid cenedlaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd ar bynciau sydd â chysylltiad uniongyrchol ag agenda'r Bwrdd. Awgrymwyd y gallai crynodeb o'r trafodaethau hyn fod yn bapur i'r Bwrdd.
- Os ydym am hwyluso mwy o ymgysylltu cyhoeddus mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb bydd angen i ni gynnal cyfarfodydd y Bwrdd mewn lleoliadau sydd â cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwell yn y dyfodol.
- Mae yna awydd i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol, e.e. darparu agendâu yn gynt, daparu recordiadau, cyhoeddi crynodeb o bapurau'r Bwrdd.
- Mae yna awydd i gael cysylltiad uniongyrchol â staff yn hytrach na thrwy linell ymholiadau gyffredinol.
- O'r rhai sydd wedi ymateb roedd 5% am i rywun gysylltu â nhw eto i drafod unrhyw gynlluniau am newid.

---

# Cyd-destun ychwanegol



- Nid yw'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn gweld hyn fel prif flaenoriaeth.
- Mae CNC yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran tryloywder a chraffu cyhoeddus, ac mae'n gwneud hyn yn well na llawer o gyrff cyhoeddus eraill.
- Mae angen i ni flaenoriaethu'n ddidrugaredd ble rydym ni am ganolbwyntio'n hymdrechion o ystyried y pwysau cynyddol ar gyllidebau ac amser staff. Y nod yw lleihau'r gofyn yn hytrach na'i gynyddu.
- Argymhellion...

---

# Argymhellion



1. Ystyried defnyddio hysbysebu lleol / lledaenu'r gair drwy'r Timau Pobl a Lleoedd perthnasol pan fyddwn yn cynnal cyfarfodydd Bwrdd wyneb yn wyneb.
2. Blaenoriaethu mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus wrth ddewis lleoliadau cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.
3. Cydnabod awgrym y cyhoedd ein bod ni'n ystyried defnyddio platfformau heblaw Teams ond esbonio bod rhaid i ni fod yn hyderus hefyd o ran eu diogelwch a diogelu data ac felly Teams yw ein hopsiwn gorau.
4. Ailganolbwyntio'r defnydd o'r sesiwn Holi ac Ateb gan y cyhoedd. Dylid cyflwyno cwestiynau am eitemau / papurau ar yr agenda ymlaen llaw a byddant yn cael eu codi, eu hateb a'u cofnodi yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno yn y cyfarfod. Bydd unrhyw gwestiynau a dderbynnir nad ydynt yn ymwneud ag eitemau ar yr agenda'n cael eu trafod drwy'n llinell ymholiadau. Dylid dileu'r sesiwn Holi ac Ateb gyhoeddus 'meic agored' o'r agenda.
5. Os oes awydd ymhlith aelodau unigol o'r Bwrdd am ymgysylltu ychwanegol â'r cyhoedd, byddwn yn ceisio nodi cyfleoedd drwy ein Timau Lle presennol a gweithgarwch materion cyhoeddus cenedlaethol lle gallent ychwanegu gwerth.
6. Gwneud y 50% yn ymwybodol y bydd yr arolwg a'r argymhellion dilynol yn cael eu trafod yn y Bwrdd ym mis Ionawr. Cyhoeddi cyfathrebiadau dilynol i'r cyhoedd.

## Papur Bwrdd CNC

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	27 Ionawr 2023
<b>Teitl y Papur:</b>	Newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Statudol a Chyfreithiol
<b>Cyfeirnod y Papur:</b>	23-01-B19
<b>Noddir y Papur gan:</b>	Clare Pillman, Prif Swyddog Gweithredol
<b>Paratowyd y Papur gan:</b>	Clare Jones, Cynghorydd Arbenigol Arweiniol, Llywodraethu
<b>Cyflwynir y Papur gan:</b>	Colette Fletcher, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd
<b>Diben y Papur:</b>	Cymeradwyo
<b>Crynodeb:</b>	Gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Strategol a Chyfreithiol gan y Tîm Arwain Gwasanaethau Galluogi, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd

### Cefndir

- Yn ddiweddar, gofynnwyd i holl Fyrddau Busnes CNC gynnal adolygiad blynyddol o gynnwys y Cynllun Statudol a Chyfreithiol y maent yn gyfrifol am ei gynnal. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r gymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun gan y Tîm Arwain Gwasanaethau Galluogi, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd.
- Mae ein gweithdrefnau'n dweud bod rhaid cyflwyno unrhyw linellau neu adrannau newydd yn y Cynllun Statudol a Chyfreithiol, neu newidiadau i'r awdurdod dirprwyedig sy'n effeithio ar y Prif Swyddog Gweithredol ei hun neu aelodau'r Tîm Gweithredol, i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.
- Mae'r papur hwn yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i newid yn y Cynllun Statudol a Chyfreithiol i gynnwys y llinellau gofynnol ychwanegol a'r diwygiadau a nodwyd i'r awdurdod dirprwyedig. Cymeradwywyd y cynigion gan y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro ym mis Rhagfyr 2022.

4. Mae Tîm Arwain y Gwasanaethau Galluogi'n gyfrifol am adolygu cynnwys y Cynllun Strategol a Chyfreithiol, cyfrifoldeb a arferai fod yn rhan o waith Bwrdd Busnes y Gwasanaethau Corfforaethol, nad yw'n bodoli mwyach. Mae Tîm Arwain y Gwasanaethau Galluogi'n cynnig ychwanegu llinell newydd a fydd yn mynd i'r afael â'r bwllch a nodwyd ar gyfer yr adegau hynny pan fo angen cytundeb cyfreithiol gyda sefydliad arall, ond nad yw'n deillio o gyfrifoldebau statudol CNC (Cyf. 2.4). Cynigir hefyd bod y Lefel Ddirprwyedig ar gyfer Cyf. 9.10 y Cynllun Cyfreithiol a Strategol yn cael ei diwygio o 'Bwrdd Busnes Perthnasol' i 'Bwrdd CNC neu Bwyllgor perthnasol y Bwrdd), i sicrhau bod unrhyw adroddiadau corfforaethol statudol fel Adroddiad y Gymraeg, Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Llesiant, ac Adroddiad Iechyd a Diogelwch yn cael eu cymeradwyo'n briodol.
5. Mae'r Bwrdd Busnes Tystiolaeth yn cynnig ychwanegu llinell newydd i fynd i'r afael â bwllch a nodwyd yn y broses Rheoli Cofnodion, mewn perthynas â chadw dogfennau (Cyf. 6.3). Cynigir hefyd bod y Lefel Ddirprwyedig ar gyfer Cyf. 6.12.a) y Cynllun Cyfreithiol a Strategol yn cael ei diwygio o 'Tîm Gweithredol' i 'Bwrdd CNC', i sicrhau bod yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Interim (Drafft) yn cael ei gymeradwyo'n briodol.
6. Mae Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd yn cynnig ychwanegu pedair llinell newydd:
  - a. Cyf.8.37 – mynd i'r afael â bwllch a nodwyd yn y broses awdurdodi Gwrthsefyll Llifogydd Eiddo. Yn y broses hon mae CNC yn darparu eitemau fel drysau llifogydd i eiddo fel mesur i helpu i ddiogelu rhag difrod llifogydd;
  - b. Cyf.8.76 – i fynd i'r afael â bwllch a nodwyd mewn Rheoli'r Perygl o Lifogydd;
  - c. Cyf.10.4 a 10.5 – mynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn Ymateb CNC i Ddigwyddiadau. Y Bwrdd Busnes Rheoli Digwyddiadau fydd yn gyfrifol am y cyfeiriadau Cynllun Strategol a Chyfreithiol.
7. Mae yna effaith ganlyniadol ar rif pob adran, ond nid yw'r diwygiadau hyn wedi'u cynnwys yn yr atodiad, gan y byddwn yn ystyried bod cymeradwyo'r ychwanegiadau'n cynnwys cymeradwyo'r newidiadau canlyniadol i'r rhifau.
8. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno cofnodion newydd arfaethedig y Tîm Arwain Gwasanaethau Galluogi, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd a diwygiadau i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

## Risgiau a chyfleoedd

9. Mae'r Cynllun Strategol a Chyfreithiol yn rhan o'n fframwaith llywodraethu ac os nad ydym yn ei gadw'n gyfredol mae yna risg na fydd yn ateb y diben mwyach. Byddai yna risg hefyd pe na bai eglurder i staff ynghylch eu lefelau awdurdodi a dirprwyo.

## Goblygiadau ehangach

10. Nid oes unrhyw oblygiadau neu ystyriaethau ariannol ehangach.
11. Mae'r gofynion llywodraethu'n effeithio'n gyfartal ar bob aelod o staff. Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar gyfer unrhyw grwpiau neu nodweddion gwarchoddedig penodol.

## Y Camau Nesaf

12. Ar ôl cymeradwyo'r cofnodion ychwanegol a'r diwygiadau arfaethedig, bydd y Tîm Arwain Gwasanaethau Galluogi, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd yn cael eu cynghori a bydd y llinellau newydd yn cael eu cynnwys ym mhrif ddogfen y Cynllun Strategol a Chyfreithiol.

## Argymhelliad

13. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r cofnodion ychwanegol a'r digwyddiadau arfaethedig i'w cynnwys ym mhrif ddogfen y Cynllun Strategol a Chyfreithiol.

## Mynegai o Atodiadau

Atodiad 1 NRW SaLS 2023 – Ychwanegiadau i'r Bwrdd eu cymeradwyo gan y Tîm Arwain Gwasanaethau Galluogi, y Bwrdd Busnes Tystiolaeth a Bwrdd Busnes Rheoli'r Perygl o Lifogydd.

							Delegated Level		
	REF	Category	Sub-Category	Function	Applicable Board(s)	Section of legislation	Job Grade	Job Description	Link to MoM
Proposed	2.4	Agreement with other bodies	Legally Binding Agreements	Approval of a legally binding agreement that does not emanate directly from statute, which is low risk or will have limited impact	Enabling Services Leadership Team	N/A	Grade 11	Relevant Leadership Team member (G11)	See Buying Goods, Works and Services, Grants and Projects sections Legal Services
Proposed	6.3	Evidence, information, Governance and Asset Management	Record Management	Application to retain records under section 3(4) of the Public Records Act 1958	EVIBB	Section 3(4) of the Public Records Act 1958		Senior Information Risk Owner (SIRO)	
Current	6.11	Evidence, information, Governance and Asset Management	State of Reporting	Prepare and publish a State of Natural Resources Report (SoNaRR). a.) Approval of the Interim (Draft) report one year in advance b.) Approval of the final SoNaRR report	EVIBB	Environment (Wales) Act 2016, Part 1 Section 8(1) Environment (Wales) Act 2015		a.) Executive Team b.) NRW Board	No
Proposed	6.11 6.12	Evidence, information, Governance and Asset Management	State of Reporting	Prepare and publish a State of Natural Resources Report (SoNaRR). a.) Approval of the Interim (Draft) report one year in advance b.) Approval of the final SoNaRR report	EVIBB	Environment (Wales) Act 2016, Part 1 Section 8(1) Environment (Wales) Act 2016		a) Executive Team a) NRW Board b) NRW Board	No
Proposed	8.37	FRM	Main Rivers: Operational Powers	Authorising installation of PFR by signing Legal Agreement between resident and NRW.	FRMBB		Grade 9	Operations Manager (Grade 9)	See Buying Goods, Works and Services section
Proposed	8.76	FRM	Flood and Water Management	Decision to offer or withdraw a flood warning service to a community	FRMBB	Water Resources Act s166(1), Ministerial Direction 1996	Grade 7	Warning & Informing Team Leader	No
Current	9.10	Governance, Strategies and Reporting	Corporate Strategy, Annual Plan & Reports	Approval of any statutory corporate reports such as Welsh Language, Equality and Diversity and Well-being, Health and Safety	Enabling Services Leadership Team	various		Relevant Business Board	No
Proposed	9.10	Governance, Strategies and Reporting	Corporate Strategy, Annual Plan & Reports	Approval of any statutory corporate reports such as Welsh Language, Equality and Diversity and Well-being, Health and Safety	Enabling Services Leadership Team	various		<del>Relevant Business Board</del> NRW Board or relevant Board Committee	No
Proposed	10.4	FRM	NRW Incident Response	Decision to issue, update or cancel a Flood Alert or a Flood Warning to provide a warning of the risk of flooding to those registered for the service	IMBB	Water Resources Act s166(1), Ministerial Direction 1996		Flood Warning Duty Officer for relevant operational district	Flood Warning Duty Officer for relevant operational district No
Proposed	10.5	FRM	NRW Incident Response	Decision to issue, update or cancel a Severe Flood Warning to provide a warning of the risk of flooding to those registered for the service	IMBB	Water Resources Act s166(1), Ministerial Direction 1996		Duty Tactical Manager for relevant operational district	Duty Tactical Manager for relevant operational district No

Rhagolwg y Bwrdd – Mawrth						
	Eitem	Preifat/ Cyhoeddus	Cwmpas	Diben	Amser	Noddwr
1	Agor y Cyfarfod	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		5	Cadeirydd
2	Adolygu Cofnodion	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		10	Cadeirydd
3	Diweddariad y Cadeirydd	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		10	Cadeirydd
4	Diweddariad y Prif Swyddog Gweithredol	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		30	Clare Pillman
5	Diweddariad y Pwyllgor	Cyhoeddus a Phreifat	Eitem Sefydlog		20	Cadeiryddion Pwyllgorau
6	Cymeradwyo Cyllid	Preifat	Cymeradwyaeth	Cymeradwyo'r eitemau ariannol diweddaraf	20	Rachael Cunningham
7	Cyllideb a Chynllun Busnes 2023-24	Preifat	Craffu	Llofnodi'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes	30	Rachael Cunningham
8	Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus – Cynlluniau Llesiant	Preifat	Cymeradwyaeth	Cymeradwyo Cynlluniau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	60	Ceri Davies
9	Cynllun Corfforaethol	Preifat	Trafodaeth	Trafodaeth ar gyfer llywio'r Bwrdd a syniadau'n canolbwyntio ar weithredu a chyflwyno	120	Prys Davies
10	Diweddariad Chwarterol y Dangosfwrdd Perfformiad Cynllun Busnes	Cyhoeddus	Eitem Sefydlog	Craffu ar adroddiad Chwarter (Ch3 Hydref-Rhagfyr)	20	Clare Pillman
11	Adroddiad Cyllid	Cyhoeddus	Eitem Sefydlog	Ystyried perfformiad ariannol	15	Rachael Cunningham
12	Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch	Cyhoeddus	Eitem Sefydlog	Craffu ar gynnydd Adroddiad Blynyddol Lles, Iechyd a Diogelwch (Ch3 Hydref-Rhagfyr)	20	Prys Davies
13	Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Cyhoeddus	Eitem Sefydlog	Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	20	Prys Davies



Rhagolwg y Bwrdd – Mawrth						
	Eitem	Preifat/ Cyhoeddus	Cwmpas	Diben	Amser	Noddwr
14	Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd	Cyhoeddus	Cymeradwyaeth	Cymeradwyo Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd	15	Prys Davies
15	Cylch Gorchwyl ar gyfer PrAC a NRWLEC	Cyhoeddus	Cymeradwyaeth	Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer PrAC a NRWLEC	5	Prys Davies
16	Rhagolwg y Bwrdd	Cyhoeddus	Trafodaeth	Trafod eitemau sydd ar y gweill	5	Prys Davies
17	Unrhyw fater arall	Cyhoeddus a phreifat		Os caiff unrhyw fater ei godi	5	